

Strategaeth y Gymraeg mewn Gofal Iechyd 2024-2029

Yn cynnwys:

- 1) Cynllun pum mlynedd i gynyddu gallu'r bwrdd iechyd i gynnal ymgynghoriad clinigol yn y Gymraeg (Safon Cymraeg 110);
- 2) strategaeth hyfforddi a gweithlu Cymraeg wedi'i thargedu dan y Fframwaith *Mwy na Geiriau*.

Cynnwys

| | |
|---|----|
| Rhagair | 3 |
| Cyflwyniad | 5 |
| Safon Y Gymraeg 110 | 6 |
| Fframwaith <i>Mwy na Geiriau</i> | 7 |
| Rhan I. I ba raddau y gall BIAP gynnig ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg ar hyn o bryd?..... | 8 |
| Y Gymraeg ym Mhowys a BIAP: Canlyniadau Cyfrifiad 2021 | 12 |
| Rhan II. Pam na fyddai ymgynghoriad clinigol yn digwydd yn Gymraeg: Model sy'n seiliedig ar ddatrysiad..... | 13 |
| Rhan III. Strategaeth BIAP ar gyfer Cymraeg mewn Gofal Iechyd: Ein Cynllun Gweithredu 2024-29 | 16 |
| Rhan IV. Orlhain Cynllun Gweithredu 2024-29 | 19 |
| Atodiad A: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb..... | 23 |
| Atodiad B: Offeryn Asesu Sgiliau Cymraeg..... | 35 |
| Atodiad C: Adolygiad o Gynllun Ymgynghoriadau Clinigol Safon 110-2019 2019-24 | 37 |

Rhagair

Mewn gwlad ddwyieithog mae'n hanfodol cydnabod a dathlu natur unigryw ein treftadaeth ieithyddol. Nid iaith yn unig yw'r Gymraeg; mae'n rhan hanfodol o bwy ydyn ni, ein hunaniaeth a'n diwylliant.

Mae ein hiaith yn bont sy'n ein cysylltu â'n gorffennol, ein cymuned, a'n gilydd. Mae darparu gwasanaethau gofal iechyd yn Gymraeg yn dyst i'n hymrwymiad at warchod ein treftadaeth ieithyddol a sicrhau bod pawb, ni waeth pa iaith y maen nhw'n ei siarad, yn gallu cyrchu gwasanaethau gofal iechyd gydag urddas ac yn hawdd.

Fel siaradwr Cymraeg fy hun, rwy'n gwybod sut i lawer ohonom, nid yw cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd yn Gymraeg yn golygu deall gwybodaeth feddygol yn unig; mae'n ymwneud â theimlo ein bod yn cael ein clywed, ein gwerthfawrogi a'n parchu. Mae'n ymwneud â gallu mynegi ein hunain yn ein hiaith ein hunain, sy'n cydblethu'n ddwfn â'n hymdeimlad o berthyn a hunaniaeth.

Drwy gynnig gwasanaethau gofal iechyd yn Gymraeg, rydym nid yn unig yn sicrhau gofal iechyd effeithiol ond hefyd yn cryfhau'r cysylltiadau sy'n uno ein cymuned ddwyieithog yma ym Mhowys. Mae'n ymwneud â chreu system gofal iechyd sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd o gynwysoldeb, parch a hunanhyder diwylliannol.

Hayley Thomas

Prif Swyddog Gweithredol

Mae darparu gwasanaethau gofal iechyd yn Gymraeg yn elfen hanfodol wrth gyflawni ein dyletswyddau cydymffurfio statudol, ond yn bwysicach fyth, mae'n rhan o'n hymrwymiad ehangach i gyfathrebu, boddhad cleifion, a chanlyniadau gofal iechyd cyffredinol. Mae'r strategaeth hon yn ceisio mynd i'r afael â'r galw cynyddol am hyfedredd yn y Gymraeg mewn lleoliadau gofal iechyd, gan alinio â Safonau'r Gymraeg a'r fframwaith *Mwy na Geiriau* a meithrin dull o ofal sy'n fwy cynhwysol ac yn canolbwyntio ar y claf.

Nod y strategaeth hon yw gwella gallu Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i ddarparu ein gwasanaethau gofal iechyd yn y Gymraeg mewn ffordd strategol a chyfannol. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd dwyieithrwydd fel priodoledd ddymunol mewn ymdrechion recriwtio a chadw; drwy ddiwygio ein hymagwedd at gymhwysedd Cymraeg mewn swydd ddisgrifiadau a meini prawf dethol a defnyddio offer digidol newydd, ein nod yw gwella ein gallu i recriwtio unigolion gyda'r siliau hanfodol hyn. Gan gydnabod hefyd bod hyfedredd iaith yn sgil y gellir ei datblygu dros amser, darperir cymorth parhaus a chyfleoedd datblygiad proffesiynol i aelodau staff presennol sy'n ceisio gwella eu sgiliau Cymraeg. Bydd ein mentrau hyfforddi yn addas ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar bob lefel, o staff y rheng flaen i uwch reolwyr, gan ddefnyddio amrywiaeth eang

o ddulliau dysgu wedi'u teilwra i ddarparu ar gyfer arddulliau ac amserlenni dysgu amrywiol.

Yn ogystal â gwella gallu ieithyddol ein gweithlu, mae ein strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd mesur canlyniadau cleifion fel metrig allweddol o lwyddiant. Drwy wella prosesau casglu data ar foddhad cleifion, gallwn fesur effaith gwell sgiliau Cymraeg o fewn ein gweithlu ar les ein cleifion. Bydd y mecanweithiau adborth hyn yn dal profiadau cleifion Cymraeg ac yn asesu eu canfyddiadau o ansawdd gofal a hygyrchedd, gan ein galluogi ni i nodi meysydd i'w gwella a gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg mewn gofal iechyd yn barhaus.

Wrth gwrs, bydd yn cymryd amser i'r strategaeth hon ddwyn ffrwyth. Fodd bynnag, rydym yn hyderus bod y strategaeth bresennol yn cynrychioli cam sylweddol ymlaen i BIAP yn y maes hwn. Drwy osod targedau wedi'u diffinio'n glir, rydym yn sicrhau rhywfaint o atebolrwydd a thryloywder y mae pwysigrwydd ein nod yn gofyn amdano. Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo pan, ar ddiwedd y cyfnod mae'r strategaeth hon, y byddwn yn gallu dangos bod gennym weithlu a all ddiwallu anghenion ein poblogaeth Cymraeg yn well.

Debra Wood-Lawson

Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol

Arweinydd Gweithredol y Gymraeg a Chydraddoldeb.

Cyflwyniad

Rhaid i BIAP, ynghyd â Byrddau Iechyd Ac Ymddiriedolaethau eraill yng Nghymru, gydymffurfio â chyfres o Safonau fel yr amlinellir yn [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 7\) 2018](#). Er mai Gweinidogion Cymru sy'n pennu'r safonau, y Comisiynydd sydd i benderfynu pa safonau sy'n gymwys i gorff penodol. Ym mis Tachwedd 2018, cyflwynodd y Comisiynydd hysbysiad cydymffurfio BIAP a oedd yn amlinellu'r safonau sydd gydymffurfio â nhw, a'r dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid iddo gydymffurfio. Mae copi o hysbysiad cydymffurfio BIAP ar gael [yma](#).

Un o'r safonau y mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gydymffurfio â nhw yw cael cynllun pum mlynedd ar waith sy'n amlinellu gallu'r bwrdd iechyd i gynnal ymgynghoriad clinigol yn y Gymraeg, a'r camau y mae'n bwriadu ei gymryd i wella ei allu i wneud hynny.

Yn ogystal, mae strategaeth *Mwy na Geiriau*'r Llywodraeth ar gyfer y Gymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gosod amryw o gyfrifoldebau ar y bwrdd iechyd, gan gynnwys y gofyniad i sefydliadau gael cynllun gweithlu i wella sgiliau Cymraeg.

Mae'r gorgyffwrdd rhwng y ddwy gyfres hyn o ofynion yn glir, ac yn cael ei gydnabod yn glir mewn *Mwy na Geiriau*:

Mae'r cynllun gweithredu yn nodi bod y 'camau galluogi a amlinellir yn y cynllun gweithredu dros dro yn cyd-fynd â Safonau'r Gymraeg a'r nod yw y byddant gyda'i gilydd yn gwella gwasanaethau Cymraeg ymhellach'.

Y nod yw sicrhau dyfodol lle mae gweithredoedd *Mwy na Geiriau* yn gweithio law yn llaw â gofynion y safonau 'ac atgyfnerthu, nid eu dyblygu'.

"[Mae'r Safonau a'r cynllun] yn chwarae eu rhan i wireddu'r weledigaeth gyffredinol a amlinellir yn y strategaeth Cymraeg 2050, ac maent yn ddarnau o'r un jig-so sy'n helpu i wella ansawdd gwasanaethau iechyd a gofal i siaradwyr Cymraeg".

Y Cynnig Rhagweithiol yw'r egwyddor allweddol o *Mwy na Geiriau* ac mae hefyd yn elfen hanfodol wrth ddarparu safon 110.

Mae dogfen arweiniad Comisiynydd y Gymraeg ar Safon 110 hefyd yn awgrymu, wrth weithio i wella gallu'r sefydliad i gynnig Ymgynghoriad Clinigol, y dylem ganolbwyntio ar y meysydd clinigol hynny a nodwyd yn y Fframwaith *Mwy na Geiriau*.

Felly, mae BIAP o'r farn bod manteision sylweddol i effeithlonrwydd, dyblygu llai ac eglurder a gyflawnir wrth gael un cynllun. Mae hyn yn arbennig o fuddiol mewn sefydliad bach fel BIAP, ac yng nghyd-destun cyfyngiadau ariannol.

Yn ogystal, gobeithir y bydd *Strategaeth y Gymraeg mewn Gofal Iechyd* gyfun yn cynyddu proffil y gwaith yn y meysydd hyn, a gellir eu cymharu er enghraifft â Chynllun Cydraddoldeb Strategol y Bwrdd Iechyd.

Y ddogfen hon yw'r cynllun hwnnw. Mae'n nodi'r hyn y mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn bwriadu ei wneud dros y cyfnod 2024-2029 er mwyn gwella ei allu i ddarparu ei wasanaethau yn Gymraeg, a bodloni gofynion y Safonau a'r Fframwaith *Mwy na Geiriau*.

Safon Y Gymraeg 110

Mae safon 110 yn nodi bod:

"Rhaid ichi gyhoeddi cynllun ar gyfer pob cyfnod 5 mlynedd gan nodi -

(a) I ba raddau y mae modd i'r Bwrdd Iechyd gynnal ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg.

(b) Y camau y bwriadwn eu cymryd i wella ein gallu i gynnal ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg.

(c) amserlen o'r camau yr ydym wedi manylu arnynt yn (b).

Prif swyddogaeth y ddogfen hon yw bodloni'r gofyniad hwn.

Lluniwyd y cynllun hwn gan gyfeirio at *Ddogfen Gyngor Arferion Da Safon 110 - Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif. 7)* Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r ddogfen hon yn esbonio bod:

"Safon 110 sy'n gosod seiliau gwasanaeth iechyd mewn gwlad ddwyieithog. Mae'n crisialu'r egwyddor mai mater o ansawdd a diogelwch yw cynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg i gleifion, yn ogystal â sicrhau cysondeb a chreu mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg."

Mae hefyd yn nodi

"Mae angen i'r cynllun gynnwys gwybodaeth gadarn ynghylch gallu'r corff i gynnal ymgynghoriadau clinigol, a chamau gweithredu pendant ac amserlen i fesur ac adrodd ar gynnydd."

Mae'r canllawiau ar Safon 110 yn nodi'r angen i **sefydlu gwaelodlin** i fesur gallu'r bwrdd iechyd presennol i gynnig ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg drwy ddefnyddio'r ffynonellau data sydd ar gael.

Cyfeirir at Adran (a) Safon 110 yn Rhan I o'r ddogfen hon. Amlinellir Adrannau (b) a (c) yn Rhan III y Cynllun Gweithredu. Ymdrinnir â Safon 110A, sy'n ei gwneud yn ofynnol i BIAP adolygu ei gynlluniau a gynhyrchir dan Safon 110, yn atodiad C sy'n ffurfio adolygiad o'n Cynllun blaenorol ar gyfer y cyfnod 2019-2024.

Er nad yw'r Strategaeth BIAP ar y Gymraeg mewn Gofal Iechyd yn ymwneud â'r safonau eraill yn yr un modd, mae natur eang nodau'r ddogfen yn golygu y bydd gweithredu'r cynllun hwn yn llwyddiannus yn gwella cydymffurfiaeth â'r holl safonau yn anuniongyrchol ac yn effeithio'n uniongyrchol ar lawer. Lle mae hyn yn wir, fe'i nodwyd ochr yn ochr â'r camau gweithredu (Gweler Rhan III: Ein Cynllun Gweithredu ar gyfer 2024-29).

Fframwaith Mwy na Geiriau

Mae'r fframwaith [Mwy na Geiriau](#) yn cynrychioli strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Er mai cynllun Llywodraeth Cymru yw hwn, mae'n cynnwys nifer o amcanion a champau gweithredu ar gyfer byrddau iechyd unigol; mae'r rhain yn cael eu hadrodd i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn gan ddefnyddio templed adrodd.

Mae Gweithred 18 yn y fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i BIAP gael 'strategaeth y gweithlu a hyfforddiant wedi'i thargedu' ar waith er mwyn gwella sgiliau Cymraeg ei weithlu; gellir ystyried bod y ddogfen hon yn bodloni'r gofyniad hwnnw.

Pan fo gweithred yn y ddogfen hon yn bwydo i mewn i un neu fwy o agweddau ar y fframwaith Mwy na Geiriau, nodwyd hyn isod.

Rhan I. I ba raddau y gall BIAP gynnig ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg ar hyn o bryd?

Yn ôl Rheoliadau Safonau'r Gymraeg:

ystyr "ymgynghoriad clinigol" yw rhyngweithio rhwng un neu fwy o unigolion a chorff;
(Rheoliad Rhif.7, 2018)

Gallai ymgynghoriad clinigol ddigwydd wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu ar-lein. Fel y cydnabuwyd gan ganllawiau'r Comisiynydd ar Safon 110, cynhelir cannoedd ar filoedd o ymgynghoriadau clinigol yn ysbytai Cymru bob dydd. Gallai arhosiad claf mewnol mewn ysbyty (er enghraifft) gynnwys nifer o ryngweithiadau o'r fath, ac ni fydd y mwyafrif ohonynt yn cael eu cofnodi gan y systemau data sydd ar gael ar hyn o bryd i fyrddau iechyd. Er bod systemau fel WPAS yn cofnodi dewis iaith claf, nid ydynt yn cofnodi'n uniongyrchol a gynhaliwyd ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg neu beidio, na hyd yn oed faint o ymgynghoriadau clinigol a gynhaliwyd. Nid yw newid radical i'r systemau hyn o fewn pŵer BIAP.

Wrth osod gwaelodlin ar gyfer gallu'r Bwrdd Iechyd i ddarparu ymgynghoriad clinigol yn y Gymraeg, mae angen mesur gallu'r bwrdd iechyd i ddarparu ymgynghoriad yn Gymraeg drwy Fesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion a/neu ddefnyddio dangosyddion procsi, megis sgiliau iaith y staff. Er nad yw'r rhain yn mesur nifer yr ymgynghoriadau clinigol a gynhelir yn uniongyrchol, rhyngddynt dylent roi syniad o gapasiti'r bwrdd iechyd yn y maes hwn.

Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion

Ym mis Tachwedd 2022 cyflwynwyd system adborth cleifion CIVIA i BIAP. Mae'r system hon yn gwahodd cleifion i gwblhau arolwg ar wahanol agweddau ar eu triniaeth. Ers ei chyflwyno, mae'r system wedi gofyn i gleifion ateb y cwestiwn canlynol mewn perthynas â'u triniaeth:

2 Oeddech chi yn medru siarad Cymraeg â'r staff os oeddech yn dymuno hynny?

Bob amser Fel arfer Weithiau Byth


Ddim yn berthnasol

Mae rhai cyfyngiadau sylweddol i'r mesur hwn: mae angen i'r staff gynnig yr arolygon i gleifion ac felly dim ond canran fach o gleifion sy'n manteisio ar y cynnig hwn. Efallai y ceir eu hateb yn anghyfartal gan ddemograffeg benodol, a chleifion sy'n cael mathau penodol o driniaeth. Serch hynny, mae'n fesur uniongyrchol o a lwyddodd y bwrdd iechyd i ddarparu ymgynghoriadau clinigol

yn Gymraeg, ac felly mae'n rhan allweddol o fesur y bwrdd iechyd o'i gynnydd o ran cyflawni nodau Safon 110.

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, 2024, yr atebion a gafwyd ar gyfer y cwestiwn hwn oedd fel a ganlyn (ar ôl cael gwared ar y canran o bobl nad oedd angen neu eisiau defnyddio'r Gymraeg):

A fu modd i chi ddefnyddio'r Gymraeg gyda staff, os oedd arnoch eisiau gwneud?




Mae hyn yn gosod llinell sylfaen ar gyfer mesur llwyddiant dros y cyfnod 2024-2029.

Sgiliau Cymraeg Staff

Yn ogystal â data arolwg Civica a ddisgrifir uchod, mae'r bwrdd iechyd yn casglu gwybodaeth am sgiliau Cymraeg staff. Nid yw'r wybodaeth hon yn fesur perffaith o allu'r bwrdd iechyd i ddarparu ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg - gall staff sy'n siarad Cymraeg fod mewn rolau lle nad ydynt yn delio â chleifion, neu efallai nad ydynt yn darparu ymgynghoriadau yn Gymraeg (oherwydd nad ydynt yn ymwybodol bod y claf ei eisiau, nid ydynt wedi darparu'r Cynnig Rhagweithiol, nid ydynt yn fodlon siarad Cymraeg â'r claf, neu am ryw reswm arall). Fodd bynnag, mae'n ddangosydd procsi rhesymol: mae'r gallu i siarad Cymraeg yn rhagofyniad angenrheidiol i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg, a byddai disgwyl rhesymol i wella sgiliau Cymraeg ein staff yn cynyddu ein gallu i ddarparu ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg.


Ar 31^{ain} Mawrth 2024, roedd sgiliau Cymraeg ein staff fel a ganlyn:

Cyfanswm / All Staff




Gellir rhannu'r data hwn hefyd yn ôl lleoliad, sy'n dangos yr ystadegau canlynol ar gyfer y 9 prif safle ysbyty:


Aberhonddu (Brecon)




Bronllys








Y Drenewydd (Newtown)




Llandrindod





Mae'r amrywiad hwn yn adlewyrchu cyffredinrwydd y Gymraeg yn y boblogaeth leol, sy'n amrywio'n sylweddol ar draws Powys. Er bod cyfrifiad 2021 yn dangos bod 16.4% o'r boblogaeth gyffredinol yn gallu siarad Cymraeg - ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 17.8% - mae'r gyfran yn lleol yn amrywio mor isel â 7% yn Nhref-y-clawdd a Llanandras i mor uchel â 33% yn Ystradgynlais a 48% ym Machynlleth.

Y Gymraeg ym Mhowys a BIAP: Canlyniadau Cyfrifiad 2021




Er nad yw'n unigryw i Bowys, nid yw'r radd hon o amrywiad yn cael ei adlewyrchu yn y rhan fwyaf o fyrddau iechyd eraill Cymru ac mae'n cynrychioli her a chyfle i BIAP. Er nad yw'r Safonau na *Mwy na Geiriau* yn galw am amrywiad daearyddol, dan safonau 69-71 mae'n rhaid i ni asesu ein polisïau am eu heffaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, yn ogystal â'u llunio yn y fath fodd fel y gallent gael effaith gadarnhaol.

Gyda hyn mewn golwg, mae'r strategaeth hon wedi ymgorffori rhywfaint o amrywiad daearyddol ym Mhowys, gyda rhai ymyriadau wedi'u targedu at y ddau safle - Ystradgynlais a Machynlleth - wedi'u lleoli yn yr ardaloedd sydd â'r gyfran uchaf o drigolion Cymraeg. Mae ein cyfiawnhad dros y dull hwn wedi'i amlinellu yn yr adran berthnasol o'r Asesiad Effaith (Atodiad A).

Rhan II. Pam na fyddai ymgynghoriad clinigol yn digwydd yn Gymraeg: Model sy'n seiliedig ar ddatrysiad

Mae'r diagram canlynol yn disgrifio, yn ôl-weithredol, y materion y mae angen eu datrys er mwyn darparu ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg i glaf sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.



Tri Achos Sylfaenol

Mae'r model a amlinellir uchod yn nodi tri achos sylfaenol pam na fydd ymgynghoriad clinigol yn cael ei gynnal yn Gymraeg, er gwaethaf dymuniad y claf.

- 1) Diffyg sgiliau Cymraeg yn y gweithlu.
- 2) Patrymau ymddygiad staff a/neu brosesau mewnol nad ydynt yn galluogi ymgynghoriadau yn Gymraeg.
- 3) Systemau nad ydynt yn galluogi staff i gofnodi dewis iaith cleifion.

O'r tri achos a amlinellir uchod, mae'r Strategaeth gyfredol ar gyfer y Gymraeg mewn Gofal Iechyd yn canolbwyntio'n bennaf ar y ddau gyntaf. Er y gallai gwella systemau casglu data cleifion hefyd wella gallu BIAP i gynnal ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg, mae nifer o resymau dros roi llai o bwyslais ar y maes hwn yn 2024-29:

- Mae'r rhan fwyaf o'r systemau a ddefnyddir o fewn BIAP yn cael eu datblygu ar lefel Cymru gyfan, ac ychydig iawn o effaith uniongyrchol sydd gan BIAP, os o gwbl, ar eu datblygiad. Mae'r gofynion hyn yn debyg ar draws holl fyrddau iechyd Cymru ac yn cael eu hyrwyddo'n eang mewn prosesau datblygu systemau Cymru gyfan.
- Mae datblygiadau sydd ar y gweill e.e. ap GIG Cymru yn debygol o wella cysondeb cofnodion iaith cleifion hyd yn oed heb unrhyw gamau pellach gan BIAP.
- Mae llawer o'r systemau gwybodaeth cleifion presennol sy'n cael eu defnyddio gan ein staff clinigol eisoes yn galluogi cofnodi dewis iaith. Efallai na fydd hyn o reidrwydd yn cael ei wneud yn gyson gan staff yn ymarferol, a lle mae'r wybodaeth hon yn bodoli efallai na fydd yn cael ei rhannu'n briodol – ond fel mae'r diagram uchod yn dangos, lle mae hyn yn wir, mae'n gwestiwn o broses ac ymarfer BIAP a/neu adrannau, yn hytrach nag o'r systemau eu hunain.
- Hyd yn oed gyda chofnod cyflawn a chywir o ddewisiadau iaith pob claf, ni ellir cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg os nad yw staff sydd â'r sgiliau priodol ar gael. Fodd bynnag, lle mae gan y staff perthnasol y lefel angenrheidiol o sgiliau Cymraeg a'u bod yn gweithredu'n gyson yn unol ag arfer gorau (yn enwedig y Cynnig Rhagweithiol), nid oes angen *cofnodi* dewisiadau'r claf er mwyn cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg. Mae hyn yn cynrychioli'r sefyllfa bresennol ar gyfer Saesneg, iaith lle gall pob clinigwr ddarparu ymgynghoriadau clinigol yn ddiodyn.

Am y rheswm hwn, bydd y strategaeth bresennol yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â sgiliau, agweddau ac ymddygiad ein staff.

Cyfieithu ar y pryd

Mae Safonau'r Gymraeg a Mwy na Geiriau yn caniatáu darparu gwasanaethau yn Gymraeg yn benodol drwy ddefnyddio dehongli/cyfieithu ar y pryd (h.y. cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg). Mae BIAP yn gwneud defnydd eang o gyfieithwyr i ddarparu gwasanaethau yn Iaith Arwyddion Prydain ac ieithoedd tramor.

Er gwaethaf hyn, nid ydym wedi ymgorffori cyfieithu ar y pryd yn ein Strategaeth ar gyfer y Gymraeg mewn Gofal Iechyd. Mae hyn oherwydd y diffyg tystiolaeth y byddai'n well gan gleifion Cymraeg dderbyn gwasanaeth drwy gyfieithydd nag yn Saesneg. Mae cyfieithwyr ar y pryd Cymraeg hefyd wedi dweud wrthym na fyddent yn fodlon darparu'r gwasanaeth hwn, gan eu bod yn cynnig cyfieithu *o'r* Gymraeg yn unig.

Hyd yn oed gan dybio y byddai cyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg yn cael ei gynnis, os nad yw cleifion eisiau hyn mewn gwirionedd, byddem yn datblygu'r *gallu* damcaniaethol i roi ymgynghoriad yn Gymraeg heb gynyddu'r ddarpariaeth wirioneddol o wasanaethau yn y Gymraeg.

Felly, mae'r risg y gallai cynnis mwy o ddefnydd o gyfieithu ar y pryd ddod ar draul gweithredu mwy ystyrlon i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.

Gall cynlluniau a gynhyrchir gan BIAP yn y dyfodol ailedrych ar y sefyllfa hon pe bai'r sefyllfa'n newid.

Rhan III. Strategaeth BIAP ar gyfer Cymraeg mewn Gofal Iechyd: Ein Cynllun Gweithredu 2024-29

| Cyfeirnod y Cam Gweithredu | Beth yw'r cam gweithredu? | Sail resymegol | Safonau Cymraeg Ychwanegol Sy'n Berthnasol | Camau Gweithredu Mwy na Geiriau Perthnasol |
|----------------------------|---|---|--|--|
| 1 | Cynyddu nifer y cleifion sy'n cael eu holi am eu defnydd o'r Gymraeg ar Civica drwy annog staff i wneud defnydd ehangach o'r system. | Ni fydd y rhain ar eu pen eu hunain yn cynyddu gallu'r bwrdd iechyd i ddarparu ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg; fodd bynnag, byddant yn gwella gallu'r Bwrdd Iechyd i fesur ei gynnydd yn gywir yn y maes hwn. Mae hyn yn hanfodol er mwyn targedu ymyriadau yn briodol. | 23, 23A | 5 |
| 2 | Lleihau canran y staff y mae eu sgiliau Cymraeg yn anhysbys drwy gysylltu â'r staff hyn yn uniongyrchol a gofyn iddynt ddiweddarau eu gwybodaeth. | | 96 | 8, 9 |
| 3 | Cynyddu cyfran y staff BIAP sydd wedi gwneud y cwrs Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Gymraeg ESR Gorfodol. | Mae Ymwybyddiaeth y Gymraeg yn pwysleisio pwysigrwydd iaith wrth ddarparu gofal priodol ac yn hybu ymwybyddiaeth o egwyddor y Cynnig Rhagweithiol. Gall weithredu fel cam cyntaf tuag at hyfforddiant pellach. | 102 | 14 |
| 4 | Cynyddu nifer y staff sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg i Reolwyr. | Gellir cynnwys cwrs ar gyfer rheolwyr BIAP fel rhan o'r rhaglen Datblygu Rheolwyr presennol; mae hyn yn fodd o hyrwyddo dulliau sy'n benodol i BIAP, yn ogystal ag atgyfnerthu agweddau a gwmpesir yn y modiwl Ymwybyddiaeth cyffredinol. | 102, 99 | 14, 18 |
| 4a | Targedu'r hyfforddiant hwn at reolwyr sydd wedi'u lleoli ym Machynlleth ac Ystradgynlais. | Bydd targedu'r hyfforddiant hwn mewn meysydd blaenoriaeth yn sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau yn ogystal â chynyddu'r nifer sy'n ymgymryd â'r hyfforddiant yn gyffredinol. | 102, 99 | 14, 18 |
| 4b | Targedu'r hyfforddiant hwn at reolwyr sy'n gweithio ym mhroffesiynau blaenoriaeth MNG. | | 102, 99 | 14, 18 |
| 5 | Cysylltu'n uniongyrchol â staff sy'n siarad Cymraeg i ddarparu cortyn gwddf 'Iaith Gwaith' iddynt. | Mae'r weithdrefn gyfredol yn darparu'r rhain yn oddefol e.e. drwy gais ac ar gael yn ystod y broses ymsefydlu; mae hyn yn dibynnu ar y staff eu hunain i chwilio amdanynt yn weithredol. Dylai dull mwy rhagweithiol gynyddu nifer y bobl sy'n gwisgo deunydd Iaith Gwaith ar draws BIAP. | 105 | 35 |
| 6 | Defnyddio <i>Cynllun Menter Addysg a Gyrfaoedd yr Academi</i> yn ysgolion uwchradd Powys, gan gynnwys ysgolion a ffrydiau cyfrwng Cymraeg, hyrwyddo gyrfaoedd mewn gofal iechyd ymhlith y rhai sydd | Bydd Cynllun Menter Addysg a Gyrfaoedd yr Academi yn ymweld â lleoliadau cyfrwng Cymraeg ledled Powys i bwysleisio gwerth sgiliau Cymraeg ar gyfer gyrfaoedd ym maes gofal iechyd. | | 13, 18, 19 |

| | | | | |
|----|--|---|----------|----------------|
| | eisoes yn gallu siarad Cymraeg a hyrwyddo pwysigrwydd sgiliau Cymraeg mewn gyrfaedd mewn gofal iechyd. | | | |
| 7 | Adolygu'r ffordd y disgrifir gofynion y Gymraeg mewn hysbysebion swyddi a manylebau person. | Mae potensial bod yr iaith a ddefnyddir ar hyn o bryd mewn hysbysebion, swydd ddisgrifiadau a manylebau'r person yn llywio disgwyliadau mewn ffordd nad yw'n ddelfrydol i recriwtio (siaradwyr Cymraeg neu fel arall). Mae hwn hefyd yn gyfle i hybu hyfforddiant. | 106, 107 | 6, 16 |
| 8 | Sicrhau bod yr holl swyddi gwag yn cael eu hasesu'n gywir ar gyfer eu gofynion rôl trwy system asesu newydd a chofnodi'r unigolyn/unigolion a enwir sy'n gysylltiedig â phob asesiad unigol. | Mae gan y broses bresennol atebolrwydd cyfyngedig oherwydd absenoldeb cofnod o asesiadau a'u canlyniadau. Bydd proses ddiwygiedig yn gwella atebolrwydd ac yn debygol o gynyddu nifer y rolau Cymraeg hanfodol a hysbysebir. | 106 | 6, 13, 16 |
| 9 | Cynnig lleoliadau Rhaglen Ddarpar Nyrsys i ymgeiswyr sydd â sgiliau Cymraeg. | Bydd hyn yn ymwreiddio'r egwyddor bod y bwrdd iechyd yn gwerthfawrogi sgiliau Cymraeg a gall gynyddu cyfran y siaradwyr Cymraeg yn y corff staff. | 106, 107 | 6, 16 |
| 10 | Dechrau hysbysebu rolau yn y bwrdd iechyd lle mae'r Gymraeg yn hanfodol ond gyda'r opsiwn i'r rhai di-Gymraeg ymrwymo i ddysgu Cymraeg i lefel benodol wrth gael eu penodi. | Bydd hyn yn ymwreiddio'r egwyddor bod y bwrdd iechyd yn gwerthfawrogi sgiliau Cymraeg ac y dylai gynyddu cyfran y siaradwyr Cymraeg yn y corff staff. | 106 | 13, 16 |
| 11 | Cynyddu nifer y rolau bwrdd iechyd sy'n cael eu hysbysebu gyda sgiliau Cymraeg yn hanfodol a/neu lle mae angen dysgu hyd at lefel benodol. | Bydd hyn yn ymwreiddio'r egwyddor bod y bwrdd iechyd yn gwerthfawrogi sgiliau Cymraeg ac y dylai gynyddu cyfran y siaradwyr Cymraeg yn y corff staff. | 106 | 13, 16, 18 |
| 12 | Marchnata gyrfaedd yn uniongyrchol yn y bwrdd iechyd at siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys trwy gyfleoedd gwirfoddol a phrofiad gwaith. | Ar hyn o bryd yr unig farchnata yw cyfieithu deunyddiau cyffredinol ac ambell swydd wag unigol. Mae llawer o gyfleoedd eraill e.e. papurau bro lleol, hysbysebu ar-lein sy'n cael ei farchnata'n uniongyrchol at siaradwyr Cymraeg, a allai gynyddu ceisiadau a chyflwyno'r bwrdd iechyd fel cyflogwr o ddewis i siaradwyr Cymraeg. | 6 | 13, 16, 18, 19 |
| 13 | Cyflwyno Cymraeg 'Lefel Cwrtais' ar draws y corff staff presennol (noder. <i>yn amodol ar ddarpariaeth o fodiwl hyfforddi priodol gan LIC / AaGIC</i>) | Mae hyn yn nod MNG. Er nad yw 'lefel cwrtais' o'r Gymraeg yn ddigon i ddarparu ymgynghoriad clinigol, gall hyfforddiant i'r lefel hon wella ymwybyddiaeth ac empathi tuag at yr iaith a gall fod yn gam cyntaf ar daith iaith hirdymor. | 99 | 17 |
| 13 | Cynyddu cyfanswm nifer y staff sy'n cwblhau hyfforddiant Cymraeg (yn | Mae hyrwyddo hyfforddiant yn fodd o wella sgiliau Cymraeg cyffredinol o fewn y corff staff ac | 101 | 18 |

| | | | | |
|----|--|--|--------------|--------|
| | uwch na lefel 'cwrtais') bob blwyddyn. | o wella ein gallu i gynnis ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg yn uniongyrchol. | | |
| 14 | Defnyddio'r cynllun codi hyder ymhlith ein staff ac, ar y lleiaf, cynnal y nifer sy'n ymgymryd â'r cynllun dros y cyfnod o bum mlynedd, neu cyn belled â bod y cynllun yn cael ei gefnogi. | Mae staff sydd eisoes â sgiliau Cymraeg ond heb yr hyder na'r arfer o'u defnyddio'n broffesiynol yn 'llwyddiant cyflym' y gellir eu hychwanegu at y niferoedd sy'n gallu cynnis ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg am ffracsiwn o'r buddsoddiad sydd ei angen i ddysgu Cymraeg i glinigwr o'r dechrau. | 101 | 13, 18 |
| 15 | Cynyddu cyfran staff BIAP sy'n adrodd eu sgiliau Cymraeg ar lefel 1+ | Gwell sgiliau Cymraeg ymhlith y corff staff drwy gyfuniad o gynyddu'r tebygolrwydd y bydd modd cynnal ymgynghoriad yn Gymraeg. Gellir cyflawni hyn drwy gyfuniad o hyfforddi'r staff presennol a recriwtio staff newydd gyda sgiliau Cymraeg. | 106 | 5 |
| 16 | Cynyddu cyfran staff BIAP sy'n adrodd eu sgiliau Cymraeg ar lefel 2+ | | 106 | 5 |
| 17 | Cynyddu cyfran staff BIAP sy'n adrodd eu sgiliau Cymraeg ar lefel 3+ | Mae'n annhebygol y bydd staff sydd â lefelau isel o sgiliau Cymraeg yn gallu cynnis ymgynghoriad clinigol llawn yn y Gymraeg. Fodd bynnag, efallai y byddant yn gallu darparu ymgynghoriad yn Gymraeg gyda chymorth neu ddarparu ymgynghoriad yn rhannol yn Gymraeg; ac maent mewn sefyllfa well i ddatblygu eu sgiliau ymhellach yn y dyfodol. Mae hefyd yn bosibl bod sgiliau Cymraeg yn cyd-fynd â mwy o ymwybyddiaeth o'r iaith ac y bydd datblygu sgiliau yn yr iaith ei hun yn gwella diwylliant, ymarfer ac ymddygiad o amgylch yr iaith. | 106 | 5 |
| 18 | Cynyddu cyfran y cyrsiau CBT Ar-lein y gellir eu cynnis yn Gymraeg, a marchnata'r cwrs hwn yn Gymraeg. | Mae angen cynyddu ein cynnis o ofal iechyd yn Gymraeg ar-lein ac mae hyn yn dibynnu ar recriwtio a chadw staff. | 60, 63 | 13 |
| 19 | Cynnal capasiti Cymraeg y bwrdd iechyd o fewn y gwasanaeth 111 #2. | Mae'r capasiti presennol yn y tîm hwn yn ddigonol i fodloni'r lefel bresennol o alw, fodd bynnag, bydd angen cynnal hyn dros oes y cynllun. | 8, 9, 10 | 13 |
| 20 | Cynyddu ymatebion CIVICA cleifion sy'n dweud eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg o leiaf <i>weithiau</i> . | Byddai cyflawni'r nodau hyn yn dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi gwella ei allu i ddarparu ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg. | 23, 23A, 110 | 5 |
| 21 | Cynyddu ymatebion CIVICA cleifion sy'n dweud eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg o leiaf <i>fel arfer</i> . | Bydd gosod targed ym mhob un o'r tri mesur yn sicrhau twf gwirioneddol, yn hytrach nag ailddosbarthu'n unig. | 23, 23A, 110 | 5 |
| 22 | Cynyddu ymatebion CIVICA cleifion sy'n dweud eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg <i>bob tro</i> . | | 23, 23A, 110 | 5 |

Rhan IV. Olrhain Cynllun Gweithredu 2024-29

| Cyfeirnod y Cam Gweithredu | Beth yw'r cam gweithredu? | Gwaelodlin | Nod 3 blynedd | Canlyniad 3 blynedd | Nod 5 blynedd | Canlyniad 5 blynedd | Arweinydd Cyfrifoldeb |
|---|--|--|---|---------------------|---|---------------------|---|
| Amcan 1: Gwella prosesau casglu data lleol ynghylch ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg | | | | | | | |
| 1 | Cynyddu nifer y cleifion sy'n cael eu holi am eu defnydd o'r Gymraeg drwy Civica drwy annog staff i wneud defnydd ehangach o'r system. | Cyfanswm yr arolygwyd yn 2023-24: 120 | 200 y flwyddyn | | 300 y flwyddyn | | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Diogelwch |
| 2 | Lleihau canran y staff y mae eu sgiliau Cymraeg yn anhysbys drwy gysylltu â'r staff hyn yn uniongyrchol a gofyn iddynt ddiweddarau eu gwybodaeth. | 12.52% | 10% | | 10% | | Arweinydd Gwasanaeth y Gymraeg |
| Amcan 2: Mwy o ymwybyddiaeth a defnydd staff o'r Cynnig Rhagweithiol | | | | | | | |
| 3 | Cynyddu cyfran y staff BIAP sydd wedi ymgymryd â'r cwrs Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Gymraeg ESR Gorfodol. | 90% | 92% | | 92% | | Pennaeth Datblygu Sefydliadol |
| 4 | Cynyddu nifer y staff sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg i Reolwyr. | Sero - Datblygwyd hyfforddiant ond nid yw wedi'i ddarparu eto. | Cyfanswm o 100 unigolyn. | | Cyfanswm o 200 unigolyn. | | Arweinydd Gwasanaeth y Gymraeg |
| 4a | Targedu'r hyfforddiant hwn at reolwyr sydd wedi'u lleoli ym Machynlleth ac Ystradgynlais. | Nid yw'r hyfforddiant wedi'i ddatblygu na'i dargedu eto. | Tystiolaeth o dargedu uniongyrchol. | | Tystiolaeth bellach o dargedu uniongyrchol. | | Arweinydd Gwasanaeth y Gymraeg |
| 4b | Targedu'r hyfforddiant hwn at reolwyr sy'n gweithio ym mhroffesiynau blaenoriaeth MNG. | Nid yw'r hyfforddiant wedi'i ddatblygu na'i dargedu eto. | Tystiolaeth o dargedu uniongyrchol. | | Tystiolaeth bellach o dargedu uniongyrchol. | | Arweinydd Gwasanaeth y Gymraeg |
| 5 | Cysylltu'n uniongyrchol â staff sy'n siarad Cymraeg i ddarparu cortyn gwddf 'Iaith Gwaith' iddynt. | Mae'r weithdrefn gyfredol yn darparu'r rhain yn oddefol e.e. trwy gais ac yn ystod y sesiwn ymsefydlu. | Tystiolaeth o dargedu uniongyrchol. | | Tystiolaeth bellach o dargedu uniongyrchol. | | Arweinydd Gwasanaeth y Gymraeg |
| Amcan 3: Cynyddu'r pwyslais ar sgiliau'r Gymraeg yn ein prosesau denu a recriwtio | | | | | | | |
| 6 | Defnyddio Cynllun <i>Dyfodol y Gweithlu</i> yn ysgolion uwchradd Powys, gan gynnwys ysgolion a ffrydiau cyfrwng Cymraeg, hyrwyddo gyrfaedd mewn gofal iechyd ymhlith y rhai sydd eisoes yn gallu siarad Cymraeg a hyrwyddo pwysigrwydd | Bydd Cynllun Menter Addysg a Gyrfaedd yr Academi yn ymweld â lleoliadau cyfrwng Cymraeg ledled Powys i bwysleisio gwerth sgiliau | Sesiynau X/Y wedi'u cyflwyno i X/Y o ddisgyblion mewn | | Sesiynau X/Y wedi'u cyflwyno i ddisgyblion mewn | | Arweinydd Strategol y Gweithlu ar gyfer Iechyd, Gofal a Phartneriaeth |

| | | | | | | | |
|--|--|---|--|--|--|--|---|
| | sgiliau Cymraeg mewn gyrfaedd mewn gofal iechyd. | Cymraeg ar gyfer gyrfaedd ym maes gofal iechyd. | ysgolion CC/CS. | | ysgolion CC/CS. | | |
| 7 | Adolygu'r ffordd y disgrifir gofynion y Gymraeg mewn hysbysebion swyddi a manylebau person. | Disgrifiad cyfredol: "Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon; mae croeso i siaradwyr Saesneg a Chymraeg wneud cais." | Cynhaliwyd adolygiad a newidiwyd y dull gweithredu. | | Cynhaliwyd adolygiad a newidiwyd y dull gweithredu. | | Arweinydd Gwasanaeth y Gymraeg |
| 8 | Sicrhau bod yr holl swyddi gwag yn cael eu hasesu'n gywir ar gyfer eu gofynion rôl trwy system asesu newydd a chofnodi'r unigolyn/unigolion a enwir sy'n gysylltiedig â phob asesiad unigol. | Mae gan y broses bresennol atebolrwydd cyfyngedig oherwydd absenoldeb cofnod o asesiadau a'u canlyniadau. | Aseswyd a chofnodwyd 100% o'r swyddi gwag. | | Aseswyd a chofnodwyd 100% o'r swyddi gwag. | | Arweinydd Gwasanaeth y Gymraeg |
| 9 | Cynnig lleoliadau Rhaglen Ddarpar Nyrsys i ymgeiswyr sydd â sgiliau Cymraeg. | Roedd 0 lle ar raglen 2023 yn benodol ar gyfer unigolion â sgiliau siarad Cymraeg. | 2 le bob blwyddyn | | 3 le bob blwyddyn | | Pennaeth Trawsnewid y Gweithlu |
| 10 | Dechrau hysbysebu rolau yn y bwrdd iechyd lle mae'r Gymraeg yn hanfodol ond gyda'r opsiwn i'r rhai di-Gymraeg ymrwymo i ddysgu Cymraeg i lefel benodol wrth gael eu penodi. | 0 swydd wedi'i hysbysebu ar y sail hon yn 2023-24. | 3 swydd wedi'i hysbysebu ar y sail hon yn 2026-27. | | 5 swydd wedi'i hysbysebu ar y sail hon yn 2028-29. | | Dirprwy Gyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| 11 | Cynyddu nifer y rolau bwrdd iechyd sy'n cael eu hysbysebu gyda sgiliau Cymraeg yn hanfodol a/neu lle mae angen dysgu hyd at lefel benodol. | 1 swydd wedi'i hysbysebu ar y sail hon yn 2023-24. | 10 swydd wedi'i hysbysebu ar y sail hon yn 2026-27. | | 20 swydd wedi'i hysbysebu ar y sail hon yn 2028-29. | | Dirprwy Gyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| 12 | Marchnata gyrfaedd yn y bwrdd iechyd yn uniongyrchol at siaradwyr Cymraeg. | Nid yw'r bwrdd iechyd ar hyn o bryd yn marchnata ei rolau yn uniongyrchol at siaradwyr Cymraeg. | Tystiolaeth o farchnata'n uniongyrchol. | | Tystiolaeth bellach o farchnata'n uniongyrchol. | | Cyfarwyddwr Cynorthwyol: Cyfathrebu ac Ymgysylltu |
| Amcan 4: Datblygu sgiliau Cymraeg ein staff presennol drwy gyrsiau Hyfforddiant a Magu Hyder | | | | | | | |
| 13 | Cyflwyno Cymraeg 'Lefel Cwrtais' ar draws y corff staff presennol (noder. <i>Mae hyn yn amodol ar ddarpariaeth o fodiwl hyfforddi priodol gan LIC / AaGIC</i>) | 48% (tybir mai lefel cwrtais = < 1, felly mae'r holl staff ar lefel 1+ yn cyrraedd y lefel hon ar hyn o bryd) | 75% o staff yn cofnodi o leiaf lefel cwrteisi o Gymraeg. | | 90% o staff yn cofnodi o leiaf lefel cwrteisi o Gymraeg. | | Pennaeth Datblygu Sefydliadol |
| 14 | Cynyddu cyfanswm nifer y staff sy'n cwblhau hyfforddiant Cymraeg bob blwyddyn. | Gwaelodlin yn 2023-24: 20 o bobl wedi'u hyfforddi. | 30 wedi'u hyfforddi bob blwyddyn | | 35 wedi'u hyfforddi bob blwyddyn | | Arweinydd Gwasanaeth y Gymraeg |

| | | | | | | | |
|--|---|--|---|-----------------------------|---|-----------------------------|---|
| 15 | Defnyddio'r cynllun codi hyder ymhlith ein staff a sicrhau bod nifer yn mynychu. (Noder. Rydym wedi seilio ein targed ar gyfanswm sy'n lleihau oherwydd rhagwelir y bydd hyn yn cael ei dargedu at gyfran gymharol fach o'r corff staff; mae'r niferoedd blynyddol yn debygol o leihau gan fod cyfran gynyddol o'r staff hynny eisoes wedi mynychu'r hyfforddiant). | Dim hyfforddiant; mae'r cwrs yn newydd. | Cyfanswm o 100 o staff yn cwblhau'r cwrs. | | Cyfanswm o 150 o staff yn cwblhau'r cwrs. | | Arweinydd Gwasanaeth y Gymraeg |
| Targedau Atodol Ychwanegol mewn perthynas ag Amcanion 3 a 4: | | | | | | | |
| 16 | Cynyddu cyfran staff BIAP sy'n adrodd eu sgiliau Cymraeg ar lefel 1+ | 48.19% | 51.5% | | 55% | | Arweinydd Gwasanaeth y Gymraeg |
| 17 | Cynyddu cyfran staff BIAP sy'n adrodd eu sgiliau Cymraeg ar lefel 2+ | 19.99% | 21.5% | | 22.5% | | Arweinydd Gwasanaeth y Gymraeg |
| 18 | Cynyddu cyfran staff BIAP sy'n adrodd eu sgiliau Cymraeg ar lefel 3+ | 11.96% | 13% | | 14% | | Arweinydd Gwasanaeth y Gymraeg |
| Amcan 5: Sicrhau bod ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau gofal iechyd ar gael yn Gymraeg. | | | | | | | |
| 19 | Cynyddu cyfran y cyrsiau CBT Ar-lein y gellir eu cynnig yn Gymraeg. | Cyfredol: 2 o'r 25 cwrs | 10 o 25 | | 20 o 25 | | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol ac Iechyd Meddwl |
| 20 | Cynnal capasiti Cymraeg y bwrdd iechyd o fewn y gwasanaeth 111 #2. | 2 o 5 darparwr sy'n gallu ymgynghori yn Gymraeg. | 2/5 | | 2/5 | | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol ac Iechyd Meddwl |
| Amcan 6: Cyflwyno mwy o ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg | | | | | | | |
| 21 | Cynyddu ymatebion CIVICA cleifion sy'n dweud eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg o leiaf <i>weithiau</i> . | <i>Gwaelodlin</i> (diwedd 2023-24) | Blwyddyn 1 (diwedd 2024-25) | Blwyddyn 2 (diwedd 2025-26) | Blwyddyn 3 (diwedd 2026-27) | Blwyddyn 4 (diwedd 2027-28) | Blwyddyn 5 (diwedd 2028-29) |
| | | 49% | 50% | 52% | 54% | 56% | 58% |
| 22 | Cynyddu ymatebion CIVICA cleifion sy'n dweud eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg o leiaf <i>fel arfer</i> . | 35% | 35% | 36% | 36% | 36% | 37% |
| 23 | Cynyddu ymatebion CIVICA cleifion sy'n dweud eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg <i>bob tro</i> . | 26% | 26% | 26% | 27% | 27% | 28% |

Atodiad A: Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Nodwch ar y drosddeilen eich bod wedi ystyried effaith y cynnig ar y nodweddion gwarchoddedig ar gyfer pawb a allai gael eu heffeithio (defnyddwyr y gwasanaeth, cleifion, staff, perthnasau'r cleifion a gofalwr ac ati).

| Sut y bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar:- | Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl | Argymhellion ar gyfer gwella/liniaru | Camau a gymerwyd Cyfeiriwch at ble mae'r lliniaru wedi'i gynnwys yn y ddogfen, fel y bo'n briodol |
|---|--|---|---|
| <p>Oedran</p> <p>Ar gyfer y rhan fwyaf o ddibenion, y prif gategoriâu yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dan 18 oed • rhwng 18 a 65 oed • dros 65 oed | <p>Mae'r Fframwaith Mwy na Geiriau yn nodi pobl hŷn (65+ oed) a phlant ifanc fel meysydd blaenoriaeth ar gyfer darpariaeth Gymraeg.</p> <p>Mae dadansoddiadau staff wedi awgrymu bod aelodau staff iau yn fwy tebygol o adrodd lefelau uwch o sgiliau Cymraeg (lefelau uwch a lefelau is o sgiliau) o'u cymharu â'u cydweithwyr hŷn. Mae'n debyg bod hyn oherwydd y pwyslais cynyddol ar sgiliau Cymraeg mewn ysgolion, ac ehangu addysg cyfrwng Cymraeg o'i gymharu â'r gorffennol.</p> | <p>Mae cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu ar gael i'r holl staff waeth beth yw'r nodweddion gwarchoddedig.</p> <p>Nid yw'r cynllun yn ei gwneud yn hanfodol i staff ymgymryd â hyfforddiant (tu hwnt i'r lefel 'cwrteisi') lle ni cytunwyd arno fel rhan o'r broses benodi. Gallai rolau lle mae'n ofynnol dysgu'r Gymraeg ganiatáu i staff mewnol ddatblygu eu sgiliau.</p> | <p>Nid yw'r cynllun yn ei gwneud yn hanfodol i staff ymgymryd â hyfforddiant (tu hwnt i'r lefel 'cwrteisi') lle ni cytunwyd arno fel rhan o'r broses benodi. Gallai rolau lle mae'n ofynnol dysgu'r Gymraeg ganiatáu i staff mewnol ddatblygu eu sgiliau.</p> |
| <p>Pobl ag anabledd fel y diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010</p> <p>Y rhai sydd â nam corfforol, anabledd dysgu, nam ar y</p> | <p>Mae data'r gweithlu yn awgrymu bod staff ag anableddau ychydig yn llai tebygol na'r cyfartaledd o</p> | <p>Mae cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu ar gael i'r holl staff waeth beth yw'r nodweddion gwarchoddedig.</p> | <p>Monitro Adroddiadau Blynnyddol a sianeli eraill ar gyfer newidiadau mewn tueddiadau i nodi unrhyw effeithiau cynyddol.</p> |

| Sut y bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar:- | Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl | Argymhellion ar gyfer gwella/liniaru | Camau a gymerwyd Cyfeirwch at ble mae'r lliniaru wedi'i gynnwys yn y ddogfen, fel y bo'n briodol |
|--|---|--|--|
| synhwyrâu, cyflyrau iechyd meddwl, cyflyrau meddygol tymor hir fel diabetes. | feddu ar sgiliau Cymraeg. Fodd bynnag, dylid pwysleisio bod y data ar gyfer anabledd yn wahanol iawn i'r data mewn ffynonellau eraill e.e. cyfrifiad, felly nid yw'n glir pa mor ddibynadwy yw hyn. | | |
| <p>Pobl o wahanol rywedd:</p> <p>Ystyriwch ddynion, menywod, pobl sy'n cael ailbennu rhywedd.</p> <p>DS Ailbennu Rhywedd yw unrhyw un sy'n bwriadu, yn dechrau, yn mynd drwy neu sydd wedi cwblhau proses i newid ei ryw gyda neu heb fynd drwy unrhyw weithdrefnau meddygol. Cyfeirir ato weithiau fel Traws neu Drawswyddol.</p> | Ni nodwyd unrhyw effaith sylweddol ar gyfer Ailbennu Rhywedd. | Mae cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu ar gael i'r holl staff waeth beth yw'r nodweddion gwarchoddedig. | |
| Pobl sy'n briod neu sydd â phartner sifil. | Ni nodwyd unrhyw effaith. | Nid oes angen. | Nid oes angen. |
| Menywod sy'n feichiog, ar saib o'r gwaith ar ôl cael babi, neu'r rhai sy'n bwydo ar y fron. Maent yn cael eu diogelu | Mae'n bosibl y bydd disgwyl rhesymol i staff oedi unrhyw wersi Cymraeg tra ar absenoldeb mamolaeth. Mae | Nid oes angen. | Nid oes angen. |

| Sut y bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar:- | Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl | Argymhellion ar gyfer gwella/liniaru | Camau a gymerwyd Cyfeirwch at ble mae'r lliniaru wedi'i gynnwys yn y ddogfen, fel y bo'n briodol |
|---|---|--|---|
| am 26 wythnos ar ôl cael babi, ni waeth a ydyn nhw ar absenoldeb mamolaeth ai peidio. | hyn eisoes yn cael ei gydnabod mewn polisiâu BIAP presennol. | | |
| Pobl o hil lleiafrifol, cenedligrwydd, lliw, diwylliant neu darddiad ethnig, gan gynnwys siaradwyr di-Saesneg, sipsiwn/teithwyr. gweithwyr mudol | Mae cyfrifiad 2021 yn dangos, er bod unigolion o gefndiroedd ethnig nad yw'n Gwyn yn llai tebygol o siarad Cymraeg, mae'r gwahaniaethau'n gymharol fach unwaith yr ystyrir gwlad enedigol, gyda 22% o unigolion a anwyd yng Nghymru yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg o fewn grwpiau ethnig Gwyn o'i gymharu â 15% yng ngrwpiau ethnig Asiaidd a 14% yng ngrwpiau ethnig Du. O fewn ein gweithlu mae cydberthynas cryf rhwng ethnigrwydd Gwyn (yn enwedig Cymreig) a sgiliau Cymraeg; fodd bynnag, gan fod staff nad ydynt yn wyn yn bennaf mewn rolau nyrsio a meddygol, ni fyddai disgwyl i'r strategaeth hon effeithio | Mae cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu ar gael i'r holl staff waeth beth yw'r nodweddion gwarchoddedig. | Monitro Adroddiadau Blynyddol a sianeli eraill ar gyfer newidiadau mewn tueddiadau i nodi unrhyw effeithiau cynyddol. |

| Sut y bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar:- | Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl | Argymhellion ar gyfer gwella/liniaru | Camau a gymerwyd Cyfeirwch at ble mae'r lliniaru wedi'i gynnwys yn y ddogfen, fel y bo'n briodol |
|--|---|---|--|
| | <p>arnynt yn sylweddol ar hyn o bryd.</p> <p>Dangosodd cyfrifiad 2021, ym Mhowys, fod unigolion sy'n perthyn i grwpiau ethnig Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yr un mor debyg o siarad Cymraeg â'r boblogaeth gyffredinol.</p> | | |
| <p>Pobl gyda chrefydd neu gred neu heb grefydd na chred.</p> <p>Mae'r term 'crefydd' yn cynnwys cred crefyddol ac athronyddol</p> | <p>Mae data'r gweithlu'n awgrymu bod pobl sy'n dilyn crefyddau lleiafrifol fel Islam, Hindŵaeth a Bwdhaeth yn llawer llai tebygol na Christnogion neu Anffyddwyr o feddu ar sgiliau Cymraeg. Mae hyn yn debygol oherwydd mai staff o dramor yw'r rhain yn bennaf; gan eu bod yn bennaf mewn rolau nyrsio a meddygol, ni fyddai disgwyl i'r strategaeth hon effeithio arnynt yn sylweddol ar hyn o bryd.</p> | <p>Mae cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu ar gael i'r holl staff waeth beth yw'r nodweddion gwarchoddedig.</p> | <p>Monitro Adroddiadau Blynyddol a sianeli eraill ar gyfer newidiadau mewn tueddiadau i nodi unrhyw effeithiau cynyddol.</p> |
| <p>Pobl sy'n llygad-dynnu pobl o'r:</p> | <p>Nid yw data'r gweithlu yn dangos effeithiau cyfeiriadedd rhywiol ar y gallu i siarad</p> | <p>Mae cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu ar gael i'r holl staff</p> | <p>Monitro Adroddiadau Blynyddol a sianeli eraill ar gyfer newidiadau</p> |

| Sut y bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar:- | Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl | Argymhellion ar gyfer gwella/liniaru | Camau a gymerwyd Cyfeirwch at ble mae'r lliniaru wedi'i gynnwys yn y ddogfen, fel y bo'n briodol |
|---|--|--|--|
| <ul style="list-style-type: none"> • rhyw arall (heterorywiol) • yr un rhyw (lesbiad neu'n hoyw) • y ddau ryw (deurywiol) | Cymraeg. Fodd bynnag, dylid pwysleisio mai dim ond niferoedd bach o staff sy'n nodi eu bod ar wahân i heterorywiol, felly gall nifer fach o unigolion effeithio'n sylweddol ar hyn. | waeth beth yw'r nodweddion gwarchoddedig. | mewn tueddiadau i nodi unrhyw effeithiau cynyddol. |
| <p>Pobl sy'n cyfathrebu gan ddefnyddio'r Gymraeg</p> <p>(a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a (b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>Nod Llesiant - Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.</p> <p>Safonau'r Gymraeg 69-71</p> | Diben craidd y strategaeth hon yw gwella gallu'r bwrdd iechyd i gynnal ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg, sef cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Gellir cynnig ymgynghoriadau clinigol yn Saesneg ar hyn o bryd ym mhob ardal yn y bwrdd iechyd; felly, mae'r camau gweithredu yn y cynllun hwn felly'n cynrychioli ymdrechion i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg o'i gymharu â'r Saesneg. | Bydd ffocws ar feysydd blaenoriaeth daearyddol lle siaredir y Gymraeg yn fwy eang yn sicrhau bod ymyriadau yn cael yr effaith fwyaf cadarnhaol posibl. Mae hyn oherwydd bod y galw am wasanaethau yn y Gymraeg ar ei uchaf yn yr ardaloedd hyn, sy'n golygu ein bod yn canolbwyntio adnoddau lle mae gwasanaethau Cymraeg yn fwyaf tebygol o gael eu defnyddio. Bydd hyn yn cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg rhwng staff a chleifion/ymwelwyr. Mae hefyd yn debygol o fod yn ffordd fwy hwylus o gyflawni canlyniadau o ran hyfforddiant a recriwtio oherwydd bydd | Mae'r cynllun gweithredu yn caniatáu gwahaniaethu yn seiliedig ar wahanol safleoedd BIAP. |

| Sut y bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar:- | Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl | Argymhellion ar gyfer gwella/liniaru | Camau a gymerwyd Cyfeirwch at ble mae'r lliniaru wedi'i gynnwys yn y ddogfen, fel y bo'n briodol |
|--|---|--|--|
| | | <p>mwy o alw am Gymraeg yn y meysydd hyn, ac felly'n ddefnydd mwy effeithlon o amser ac adnoddau cyfyngedig.</p> <p>Yn ogystal, oherwydd bod cyfran uwch o'r gweithlu sydd eisoes yn bresennol yn yr ardaloedd hyn yn siarad Cymraeg, bydd gwella sgiliau Cymraeg gweddill y gweithlu yn cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg rhwng staff, ni waeth a yw'r rhain yn siaradwyr Cymraeg sydd newydd eu recriwtio neu staff presennol sy'n datblygu eu sgiliau ymhellach trwy hyfforddiant.</p> | |
| <p>Pobl yn ôl eu grŵp cyflog:</p> <p>Ystyriwch bobl ar gyflog is, economaidd anweithgar, di-waith, pobl nad ydynt yn gallu gweithio o ganlyniad i afiechyd.</p> | <p>Gallai mwy o angen i ddatblygu sgiliau Cymraeg achosi anfantais i unigolion gael trafferth fforddio sesiynau hyfforddi. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae BIAP yn talu'n llawn am</p> | <p>Darperir cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu am ddim i'r holl staff, felly ni ddylai sefyllfa ariannol bersonol fod yn ffactor wrth fanteisio ar y cyfleoedd hyn.</p> | <p>Cynnal yr ymrwymiad presennol i gefnogi'r holl staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg yn ariannol.</p> |

| Sut y bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar:- | Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol posibl | Argymhellion ar gyfer gwella/liniaru | Camau a gymerwyd Cyfeiriwch at ble mae'r lliniaru wedi'i gynnwys yn y ddogfen, fel y bo'n briodol |
|--|--|---|---|
| | unrhyw hyfforddiant Cymraeg y mae ei staff yn dymuno gwneud. | | |
| <p>Pobl yn ôl y lleoliad y maent yn byw: Ystyriwch bobl sy'n byw mewn ardaloedd sy'n hysbys yn ymddangos yn economaidd gwael a/neu sydd â dangosyddion iechyd gwael, pobl nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau. Gall hyn hefyd cynnwys tlodi wifi, tlodi teithio a thlodi tanwydd.</p> | Gallai'r gwahaniaethu daearyddol yn y cynllun effeithio ar rai ardaloedd e.e. Ystradgynlais sydd â lefelau uwch na'r cyfartaledd o amddifadedd economaidd. Fodd bynnag, mae'r rhain hefyd yn feysydd sydd â lefelau uwch o sgiliau Cymraeg ymhlith y boblogaeth gefndirol. | Mae cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu ar gael i'r holl staff waeth beth yw'r lleoliad. Mae llawer o gyfleoedd hyfforddi yn cael eu cynnal ar-lein sy'n caniatáu mynediad hawdd ar draws y bwrdd iechyd. | Monitro Adroddiadau Blynyddol a sianeli eraill ar gyfer newidiadau mewn tueddiadau i nodi unrhyw effeithiau cynyddol. |
| <p>Ystyriwch unrhyw grwpiau eraill a'r ffactorau risg sy'n berthnasol i'r strategaeth, polisi, cynllun, gweithdrefn a/neu wasanaeth</p> | Ni nodwyd unrhyw faterion. | Ni nodwyd unrhyw faterion. | Ni nodwyd unrhyw faterion. |

Sut y bydd y strategaeth, polisi, cynllun, gweithdrefn a/neu wasanaeth effeithio ar iechyd a lles ein poblogaeth a helpu annerch yr anghydraddoldebau yn iechyd?

Mae'r cwestiynau yn yr adran hon yn berthnasol i'r effaith ar iechyd gyffredinol unigolion a'r effaith ar ein poblogaeth. Mae aliniad penodol gyda'r 7 nod o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael ei gynnwys yn yr adrannau perthnasol.

| Sut y bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar:- | Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol ar unrhyw grwpiau penodol a effeithiwyd arnynt. | Argymhellion ar gyfer gwella/l liniaru | Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyfeiriwch at ble mae'r lliniaru wedi'i gynnwys yn y ddogfen, fel y bo'n briodol |
|--|---|---|--|
| Pobl yn gallu cael mynediad at y gwasanaeth a gynigiwyd: Ystyriwch fynediad i'r bobl hynny sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd a/neu'r rheiny sy'n profi anghydraddoldebau iechyd. Nod Llesiant - Cymru sy'n fwy cyfartal | Ni nodwyd unrhyw faterion. | Ni nodwyd unrhyw faterion. | Ni nodwyd unrhyw faterion. |
| Pobl yn gallu gwella /cynnal ffordd iach o fyw Ystyriwch yr effaith ar ffyrdd iach o fyw, gan gynnwys bwyta'n iach, bod yn egniol, dim ysmegu/ rhoi'r gorau i ysmegu, lleihau'r niwed a achosir gan alcohol a/neu | Mae ymchwil yn awgrymu bod canlyniadau iechyd gwell yn cael eu cyflawni lle mae gofal iechyd yn cael ei ddarparu yn unol â dewisiadau iaith y claf. | Ni nodwyd unrhyw faterion. | Ni nodwyd unrhyw faterion. |

| Sut y bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar:- | Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol ar unrhyw grwpiau penodol a effeithiwyd arnynt. | Argymhellion ar gyfer gwella/liniaru | Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyfeiriwch at ble mae'r lliniaru wedi'i gynnwys yn y ddogfen, fel y bo'n briodol |
|---|---|---|--|
| cyffuriau na chafwyd ar bresgripsiwn. Yn ogystal â mynediad at wasanaethau i gynorthwyo ag atal clefydau (e.e imiwneiddio a brechu, atal achosion o gwmpo). Hefyd, ystyriwch yr effaith ar fynediad i wasanaethau cymorth, gan gynnwys gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu, gwasanaethau rheoli pwysau ac ati Nod llesiant - Cymru iachach | | | |
| Pobl yn ôl eu cyflog a statws cyflogaeth: Ystyriwch yr effaith ar argaeledd a hygyrchedd gwaith, cyflogaeth tâl/ di-dâl, lefelau cyflog, diogelwch swyddi, amodau gwaith. Nod llesiant - Cymru Lewyrchus | Gall ychwanegu gofynion y Gymraeg ei gwneud hi'n anoddach i unigolion heb sgiliau Cymraeg wneud cais am rolau penodol, er na fyddai disgwyl i hyn effeithio'n sylweddol ar lefelau cyflogaeth lleol yn gyffredinol ac nid oes unrhyw newid yn nifer y swyddi gwag sydd ar gael. Dan y cynllun presennol, rhagwelir y bydd nifer y swyddi gwag sy'n cael eu hysbysebu fel Cymraeg yn | Nid oes angen. | Monitro Adroddiadau Blynyddol a sianeli eraill ar gyfer newidiadau mewn tueddiadau i nodi unrhyw effeithiau cynyddol. |

| Sut y bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar:- | Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol ar unrhyw grwpiau penodol a effeithiwyd arnynt. | Argymhellion ar gyfer gwella/liniaru | Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyfeiriwch at ble mae'r lliniaru wedi'i gynnwys yn y ddogfen, fel y bo'n briodol |
|--|--|---|--|
| | hanfodol yn <5% o gyfanswm y swyddi gwag a hysbysebir gan y bwrdd iechyd, sy'n golygu na ddylai diffyg sgiliau Cymraeg fod yn rhwystr ystyrion i gyflogaeth yn y bwrdd iechyd. | | |
| Pobl yn ôl eu defnydd i'r amgylchedd corfforol: Ystyriwch yr effaith ar argaeledd a hygyrchedd trafnidiaeth, bwyd iach, gweithgareddau hamdden, manau gwyrdd: dyluniad yr amgylchedd ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl cleifion, staff ac ymwelwyr. Yn ogystal ag ansawdd aer, dod i gysylltiad â llygryddion; diogelwch cymunedau, dod i gysylltiad â throsedd; diogelwch ar y ffyrdd ac atal anafiadau/ damweiniau; ansawdd a diogelwch ardaloedd chwarae a manau agored Nod llesiant - Cymru gydnerth | Ni ragwelir rhai. | Nid oes angen. | Nid oes angen. |

| Sut y bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar:- | Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol ar unrhyw grwpiau penodol a effeithiwyd arnynt. | Argymhellion ar gyfer gwella/liniaru | Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyfeiriwch at ble mae'r lliniaru wedi'i gynnwys yn y ddogfen, fel y bo'n briodol |
|--|--|---|--|
| Pobl yn ôl dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar eu hiechyd Ystyriwch y dylanwad ar drefniadaeth a rolau teulu; cymorth cymdeithasol a rhwydweithiau cymdeithasol; cymdogion a'r teimlad o ymberthyn; arwahanu cymdeithasol; pwysau cyfoedion; hunaniaeth gymunedol; ethos diwylliannol ac ysbrydol Nod llesiant - Cymru o gymunedau cydlynus | Gallai mwy o bwyslais ar ddwyieithrwydd o fewn y bwrdd iechyd feithrin mwy o ymdeimlad o gymuned yn yr ardal leol. | Nid oes angen. | Nid oes angen. |
| Pobl yn ôl ffactorau macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd: Ystyriwch effaith polisiau llywodraeth; cynnyrch domestig gros; datblygiad economaidd; amrywiaeth fiolegol; hinsawdd | Ni ragwelir rhai. | Nid oes angen. | Nid oes angen. |

| Sut y bydd y strategaeth, y polisi, y cynllun, y weithdrefn a/neu'r gwasanaeth yn effeithio ar:- | Effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol ar unrhyw grwpiau penodol a effeithiwyd arnynt. | Argymhellion ar gyfer gwella/liniaru | Camau a gymerwyd gan y Bwrdd Clinigol / Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyfeiriwch at ble mae'r lliniaru wedi'i gynnwys yn y ddogfen, fel y bo'n briodol |
|---|---|---|--|
| Nod Llesiant - Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | | | |

Atodiad B: Offeryn Asesu Sgiliau Cymraeg

Esbonnir cyfeiriadau at lefelau gallu Cymraeg ym matrices canlynol GIG Cymru.

| | GWRANDO / SIARAD | DARLLEN / DEALL | YSGRIFENNU |
|----------------|--|---|--|
| Lefel 0 | <ul style="list-style-type: none"> Dim gallu sylweddol | <ul style="list-style-type: none"> Dim gallu sylweddol | <ul style="list-style-type: none"> Dim gallu sylweddol |
| Lefel 1 | <p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ynganu geiriau Cymraeg, enwau lleoedd, enwau adrannau ac ati. Cyfarch a deall cyfarchiad Defnyddio geiriau ac ymadroddion sylfaenol bob dydd, e.e. Diolch, os gwelwch yn dda, Esgusodwch fi, ac ati. Deall/trosglwyddo ceisiadau syml ar lafar o drefn/cyfarwydd/defnyddio iaith syml e.e. 'gaf i siarad â ...' Datgan ceisiadau syml a dilyn i fyny gyda chwestiynau/ceisiadau ychwanegol mewn ffordd gyfyngedig | <p>Dwi'n gallu</p> <ul style="list-style-type: none"> Deall geiriau a brawddegau allweddol syml ar faterion cyfarwydd/rhagweladwy sy'n ymwneud â fy swydd fy hun. E.e. ar arwyddion ac mewn llythrennau | <p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Llenwi ffurflenni syml, nodi gwybodaeth syml e.e dyddiad a lleoliad cyfarfod, cyfeiriad Cymraeg etc. |
| Lefel 2 | <p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Deall hanfodion sgysiaau Cymraeg yn y gwaith Ymateb i geisiadau syml sy'n gysylltiedig â swydd a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol Gofyn cwestiynau syml a deall ymatebion syml Mynegi barn mewn ffordd gyfyngedig cyhyd â bod y pwnc yn gyfarwydd Deall cyfarwyddiadau pan fydd angen iaith syml | <p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Deall gwybodaeth ffeithiol, arferol a hanfodion gwybodaeth nad yw'n arferol ar faterion cyfarwydd sy'n gysylltiedig â'm maes gwaith fy hun, e.e. mewn llythyrau safonol, taflenni, ac ati. | <p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ysgrifennu nodiadau/llythyrau/negeseuon byrion, syml ar ystod gyfyngedig o bynciau rhagweladwy sy'n gysylltiedig â fy mhrofiad personol |
| Lefel 3 | <p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Deall llawer o'r hyn sydd yn cael ei ddweud mewn swyddfa, cyfarfod ac ati. Cynnal sgwrs syml ar bwnc sy'n gysylltiedig â gwaith, ond efallai y bydd | <p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Darllen a deall gwybodaeth ffeithiol a rheolaidd a hanfod gohebiaeth arferol sy'n gysylltiedig â swyddi, llenyddiaeth | <p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ysgrifennu llythyr manwl/disgrifiadol yn ymwneud â maes swydd fy hun, ond bydd angen i siaradwr Cymraeg ei wirio |

| | | | |
|----------------|---|---|--|
| | <p>angen troi at y Saesneg i drafod/adrodd ar wybodaeth gymhleth neu dechnegol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ateb cwestiynau rhagweladwy neu ffeithiol • Cymryd a throsglwyddo'r rhan fwyaf o negeseuon sy'n debyg o fod angen sylw • Cynnig cyngor ar faterion syml yn ymwneud â swydd | <p>ffeithiol ac ati, pan ddefnyddir iaith safonol.</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Gwneud nodiadau gweddol gywir tra bod rhywun yn siarad |
| Lefel 4 | <p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal sgwrs gysylltiedig â gwaith anffurfiol, estynedig neu rhoi cyflwyniad gyda chryn dipyn o ruglder ac ystod o fynegiant, ond efallai y bydd angen troi at y Saesneg i ateb cwestiynau na ellir eu rhagweld neu i esbonio pwyntiau cymhleth neu wybodaeth dechnegol • Cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd a seminarau sydd o fewn eu gwaith eu hunain • Dadlau o blaid/yn erbyn achos | <p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darllen a deall gwybodaeth yn weddol gyflym cyhyd nad oes unrhyw eirfa anarferol yn cael ei defnyddio, ac nad oes gwybodaeth arbennig o gymhleth neu dechnegol ynghlwm | <p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Paratoi llythyrau ffurfiol o amrywiol fathau cyfarwydd fel ymholiadau, cwynion, ceisiadau ac ymgeisiadau • Cymryd nodiadau gweddol gywir mewn cyfarfodydd neu orchymyn syml • Ysgrifennu adroddiad/dogfen yn ymwneud â fy maes swydd fy hun, ond bydd angen i siaradwr Cymraeg ei wirio |
| Lefel 5 | <p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyngori ar/siarad am faterion rheolaidd, di-drefn, cymhleth, dadleuol neu sensitif sy'n ymwneud â'u profiadau eu hunain • Rhoi cyflwyniad/arddangosiad • Delio'n hyderus â chwestiynau gwrthwynebus neu anrhagweladwy • Cynnal trafodaethau gan ddefnyddio termau cymhleth/technegol • Rhoi cyfweliadau i'r cyfryngau | <p>Dwi'n gallu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall syniadau a gwybodaeth gymhleth a fynegir mewn iaith gymhleth neu arbenigol mewn dogfennau, adroddiadau, gohebiaeth ac erthyglau ac ati. | <p>Dwi'n gallu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu llythyrau ar unrhyw bwnc • Ysgrifennu nodiadau llawn/cywir o gyfarfodydd gan barhau i ddilyn trafodaethau a chymryd rhan ynddynt • Ysgrifennu adroddiadau/dogfennau yn hyderus, ond efallai y bydd angen eu gwirio am fân wallau o ran sillafu a gramadeg |

Atodiad C: Adolygiad o Gynllun Ymgynghoriadau Clinigol Safon 110-2019 2019-24

Sgiliau Cymraeg Staff

| | |
|--|---|
| Amcan | Cynyddu nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg sy'n gallu cynnig ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg. |
| Gweithredoedd | Cynnydd |
| Monitro nifer y staff sy'n gallu delio â'r cyhoedd yn Gymraeg. | <p>Ionawr 2021 - Mae'r wybodaeth hon ar gael ar ESR. Cynghorir Arweinwyr Gwasanaethau a Rheolwyr yn rheolaidd hefyd i ddysgu pwy yw'r siaradwyr Cymraeg o fewn eu timau er mwyn helpu cynllunio gwasanaethau a nodi unrhyw fylchau.</p> <p>Mawrth 2022</p> <ul style="list-style-type: none"> Darparwyd cortynnau a bathodynnau Iaith Gwaith i staff o fewn llawer o adrannau yn y Bwrdd Iechyd ac ar safleoedd Gofal Sylfaenol i'w gwneud yn glir i gleifion ble mae'r gwasanaeth Cymraeg ar gael. Mae'r rhain wedi'u dosbarthu i Bractisau meddygon teulu, wardiau ac adrannau ledled Powys. Mae cefndiroedd 'Teams' sy'n cynnwys y logo Iaith Gwaith a Dysgu Cymraeg ar gael i staff eu defnyddio o'r fewnwyd. Gall hyn helpu adnabod pa staff sy'n siarad Cymraeg mewn cyfarfod neu ymgynghoriad ar-lein. Ailadroddir pwysigrwydd asesu'r sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer swyddi yn y cyfarfodydd i arweinwyr gwasanaethau chwarterol ac mae adrannau wedi cael eu hatgoffa i asesu sgiliau Cymraeg swyddi wrth hysbysebu. <p>Ionawr 2023</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae ein data ESR (hyd at Hydref 2022) yn dangos bod 245 aelod o staff BIAP yn meddu ar sgiliau Cymraeg rhwng lefel 3-5. Mae'r staff hyn yn gweithio ar draws y bwrdd iechyd, ac ni fydd pob un ohonyn nhw'n staff clinigol sy'n trin cleifion. Mae nwyddau Iaith Gwaith yn parhau i gael eu dosbarthu ar draws pob safle ac yn cael eu hysbysebu yn y sesiwn ymsefydlu corfforaethol ac ar dudalennau Sharepoint Cymraeg. Rydym wedi datblygu pecyn cymorth newydd i reolwyr ei ddefnyddio i fonitro'r sgiliau iaith sydd eu hangen wrth recriwtio i swyddi newydd er mwyn cynyddu nifer y swyddi sy'n cael eu hysbysebu yn gofyn am sgiliau Cymraeg. |

Adolygiad Mawrth 2024

Nid yw'r weithred hon yn ymrwymo'r bwrdd iechyd i wneud unrhyw beth heblaw monitro sgiliau Cymraeg, a dylid nodi nad yw cofnodi'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn golygu bod yr aelod staff hwnnw o reidrwydd yn gallu neu'n barod i gynnig gwasanaeth clinigol yn Gymraeg.

| | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|----------|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|
| Anhysbys | 333 | 911* | 408 | 360 | 318 | |
| Lefel 0 | 1023 | 1077 | 1134 | 1136 | 1141 | |
| Lefel 1 | 506 | 565 | 574 | 598 | 655 | |
| Lefel 2 | 126 | 151 | 153 | 162 | 161 | |
| Lefel 3 | 58 | 65 | 73 | 66 | 79 | |
| Lefel 4 | 48 | 58 | 62 | 64 | 70 | |
| Lefel 5 | 87 | 107 | 102 | 108 | 115 | |

**Nodyn: Gellir esbonio'r cynnydd dros dro yn y ffigurau ar gyfer 'anhysbys' yn ystod 2019-20 drwy recriwtio staff tymor byr mewn ymateb i Covid-19.*

| | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---------|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|
| Lefel 0 | 55.36% | 53.24% | 54.05% | 53.23% | 51.37% | |
| Lefel 1 | 27.38% | 27.93% | 27.36% | 28.02% | 29.49% | |
| Lefel 2 | 6.82% | 7.46% | 7.29% | 7.59% | 7.25% | |
| Lefel 3 | 3.14% | 3.21% | 3.48% | 3.09% | 3.56% | |
| Lefel 4 | 2.60% | 2.87% | 2.96% | 3.00% | 3.15% | |
| Lefel 5 | 4.71% | 5.29% | 4.86% | 5.06% | 5.18% | |

Mae'r ystadegau uchod yn awgrymu bod y bwrdd iechyd wedi gwneud cynnydd dros amser o ran cofnodi sgiliau ei staff, a bod rhywfaint o dwf wedi bod yn sgiliau Cymraeg y gweithlu dros gyfnod pum mlynedd y cynllun.

Cofnodi staff sydd â sgiliau siarad a gwrandao ar lefelau 3 a 4 a chynnig cyfleoedd iddynt fynychu cyrsiau hyfforddi gyda'r nod o gynyddu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, a gwella sgiliau sy'n bodoli eisoes.

Ionawr 2021 - Mae cyfleoedd hyfforddi, gan gynnwys "gloywi iaith" yn cael eu hyrwyddo'n rheolaidd i'r holl staff ar draws BIAP drwy Reolwyr y Gwasanaethau a Newyddlen wythnosol staff. Anfonwyd e-bost at Arweinydd ESR i ddarganfod a allwn gyfeirio gwybodaeth at staff sydd â sgiliau Cymraeg drwy ESR neu a fydd angen gwneud hyn drwy Arweinwyr a Rheolwyr Gwasanaethau oherwydd cyfyngiadau GDPR wrth ddarparu data gwybodaeth bersonol adnabyddadwy a gafwyd gan ESR.

Mawrth 2022

- Cwblhawyd ymarfer cwmpasu gan Dîm y Gymraeg ar ESR yn Hydref 2021 i nodi'r staff sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg lefel 3 neu'n uwch. Anfonwyd holiadur i staff â'r sgiliau Cymraeg hynny er mwyn mesur diddordeb mewn mynychu cyrsiau Gloywi Iaith ac er mwyn cynnig cyfle i ymuno â rhwydwaith siaradwyr Cymraeg ar 'Teams', lle rhannir gwybodaeth am gyrsiau a chyfleoedd i ddefnyddio ac ymarfer sgiliau Cymraeg.
- Mae cyfleoedd i ddysgu Cymraeg yn parhau'n cael eu rhannu ar newyddlen staff y bwrdd iechyd ac rydym wedi dechrau trafodaethau gyda Chyngor Sir Powys ynghylch cynnal hyfforddiant Cymraeg ar y cyd.
- Mae aelod o staff clinigol wedi mynychu cwrs Cymraeg dwys yn Nant Gwrtheyrn.

Ionawr 2023

- Mae'r rhwydwaith o siaradwyr Cymraeg ar Teams bellach wedi'i ddisodli gan rwydwaith Yammer. Mae Yammer yn blatfform mwy atyniadol na Teams, lle gall aelodau o staff bostio gwybodaeth a fideos yn Gymraeg. Mae Tîm y Gymraeg hefyd yn postio gwybodaeth ar gyfleoedd i fynychu cyrsiau Gloywi Iaith drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol neu AaGIC.
- Rhennir cyfleoedd hefyd i glywed ac ymarfer Cymraeg yn y gymuned ar draws Powys drwy newyddion Sharepoint ac mae'r rhain hefyd yn cael eu hysbysebu ar sgriniau mawr yn y ffreutur o dro i dro.
- Cyhoeddir cylchlythyr Cymraeg bob chwarter sy'n cynnwys diweddariadau a negeseuon atgoffa diweddaraf am safonau'r Gymraeg, cyfleoedd cymdeithasu ac awgrymiadau defnyddiol y mis ar gyfer dysgwyr.
- Mae Tîm y Gymraeg yn cydweithio gyda sefydliadau eraill y GIG yng Nghymru i gynnal digwyddiadau dwyieithog. Hyd yn hyn, cynhaliwyd cwis Diwrnod Shw'mae / S'umae a sesiwn ar y Fari Lwyd. Ar Fawrth 1^{af} bydd Eisteddfod gyntaf y GIG yn cael ei chynnal.

| | |
|--|--|
| <p>Cofnodi staff sydd â sgiliau siarad a gwrando Cymraeg ar lefelau 1 a 2 a chynnig cyfleoedd hyfforddi iddynt wella lefelau sy'n bodoli eisoes.</p> | <p>Ion 2021 – Gweler uchod</p> <p>Mawrth 2022</p> <ul style="list-style-type: none"> Cwblhawyd ymarfer cwmpasu gan Dîm y Gymraeg ar ESR yn Hydref 2021 i nodi'r staff sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg lefel 0-3. Anfonwyd holiadur at staff gyda sgiliau Cymraeg er mwyn mesur diddordeb mewn dysgu'r Gymraeg ac i ofyn beth oedd eu hoff ddull dysgu. Cynigwyd hefyd y cyfle i ymuno â sgwrs dysgwyr Cymraeg dros Teams er mwyn rhannu cyfleoedd ym Mhowys i ddysgu ac ymarfer eu Cymraeg. Mae cyfleoedd i ddysgu Cymraeg yn cael eu rhannu ar newyddlen staff y bwrdd iechyd ac rydym wedi dechrau trafodaethau gyda Chyngor Sir Powys i edrych i gynnal hyfforddiant Cymraeg Lefel Mynediad ar y cyd. Ar Fawrth 1^{af} wnaeth Menter Iaith Maldwyn gynnal Cwis Gwyl Dewi ar gyfer y Bwrdd Iechyd a staff Cyngor Sir Powys sydd naill ai'n dysgu Cymraeg neu eisiau gwella eu sgiliau. Gobeithiwn gynnal mwy o weithgareddau tebyg dros y flwyddyn nesaf. <p>Ionawr 2023</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r rhwydwaith o ddysgwyr Cymraeg ar Teams bellach wedi'i ddisodli gan rwydwaith Yammer. Mae Yammer yn blatfform mwy atyniadol na Teams, lle gall aelodau o staff bostio gwybodaeth a chwestiynau am ddysgu Cymraeg. Mae Tîm y Gymraeg hefyd yn postio gwybodaeth ar gyfleoedd i fynychu cyrsiau Cymraeg drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol neu AaGIC. Rhennir cyfleoedd hefyd i glywed ac ymarfer Cymraeg yn y gymuned ar draws Powys drwy newyddion Sharepoint ac mae'r rhain hefyd yn cael eu hysbysebu ar sgriniau mawr yn y ffreutur o dro i dro. Mae poster 'Rhowch gynnig arni' i annog defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yn cael eu cynnig a'u dosbarthu i staff ar draws holl safleoedd y bwrdd iechyd. Cyhoeddir cylchlythyr Cymraeg bob chwarter sy'n cynnwys diweddariadau a negeseuon atgoffa diweddaraf am safonau'r Gymraeg, cyfleoedd cymdeithasu ac awgrymiadau defnyddiol y mis ar gyfer dysgwyr. Mae Tîm y Gymraeg yn cydweithio gyda sefydliadau eraill y GIG yng Nghymru i gynnal digwyddiadau dwyieithog. Hyd yn hyn, cynhaliwyd cwis Diwrnod Shw'mae / S'umae a sesiwn ar y Fari Lwyd. Ar Fawrth 1^{af} bydd Eisteddfod gyntaf y GIG yn cael ei chynnal. |
|--|--|

| | |
|---|--|
| <p>Annog yr holl staff i gwblhau'r cwrs Lefel 1 Hyfforddiant, 10 awr ar-lein a ddarperir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.</p> | <p>Ionawr 2021 - Mae cyrsiau Cymraeg Gwaith wedi cael eu cynnig i staff trwy gydol y pandemig. Mae gwybodaeth am staff sydd wedi cwblhau'r modiwlau yn cael ei fwydo drwodd i'r bwrdd iechyd. Mae nifer y bobl yn manteisio ar y cyfle hwn yn parhau i fod yn isel, sydd o bosibl yn ganlyniad i bwysau cyfredol y pandemig. Bydd angen cynnal arolwg staff ar sut i gael gafael ar hyfforddiant yn y Gymraeg.</p> <p>Mawrth 2022</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cafodd holiadur staff ar gyrsiau Cymraeg ei anfon allan ym mis Hydref 2021 i fesur diddordeb mewn cyrsiau Cymraeg ac mae cyfleoedd dysgu yn cael eu rhannu ar newyddlen staff BIAP ac mewn cyfarfodydd gyda staff. • Mae gwybodaeth am staff sydd wedi cwblhau'r modiwlau ar-lein, sy'n para 10 awr o hyd, yn cael ei rannu gyda'r bwrdd iechyd. Mae e-byst atgoffa yn cael eu hanfon at staff sydd ond wedi cwblhau rhan o'r cwrs, ac mae e-byst llongyfarch yn cael eu hanfon at staff sydd wedi derbyn tystysgrif. Mae'r nifer y staff sy'n gwneud hyn yn parhau i fod yn eithaf isel, ond rydym wedi gweld cynnydd bach yn y niferoedd yn ddiweddar a byddwn yn parhau i hyrwyddo cyfleoedd dysgu. <p>Ionawr 2023</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hyrwyddwyd cyfleoedd i ddysgu Cymraeg, gan gynnwys cwrs ar-lein 10 awr, i holl staff bob mis yn y sesiwn ymsefydlu corfforaethol ac yn sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith. • Mae gennym dudalen benodol ar Sharepoint ar gyfleoedd i ddysgu Cymraeg, sy'n cynnwys dolenni uniongyrchol at y cyrsiau ar-lein 10 awr. |
| <p><u>Adolygiad Mawrth 2024</u></p> <p>Mae cyrsiau i wella hyder a gallu ar gael, fodd bynnag, mae nifer o anawsterau mewn perthynas â hyrwyddo hyfforddiant yng Nghymru; hyd yn oed pan fydd staff yn dymuno mynychu, yn aml mae anawsterau wrth eu rhyddhau o'u dyletswyddau i fynychu cyrsiau hyfforddi.</p> <p>Cynigiwyd cwrs codi hyder ar-lein ar 16 Medi 2022 ond er gwaethaf nifer o ddatganiadau o ddiddordeb, nid oedd unrhyw gofrestrïadau ymhlith staff BIAP. Fodd bynnag, derbyniodd ail gwrs a gynigiwyd yn ystod 2023-24 46 o ddatganiadau o ddiddordeb. Bydd hyfforddiant yn parhau i fod yn ffocws wrth gynllunio at y dyfodol.</p> | |
| <p>Hyrwyddo a defnyddio technegau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd yn briodol i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg yn ystod ymgynghoriadau clinigol.</p> | <p>Ionawr 2021 – mae canllaw cyflym ar gael at wasanaethau cyfieithu ar y pryd a chyfieithu ar gael ar dudalen adnoddau Cymraeg a Chydraddoldeb ar y fewnwyd. Trafodir hyn hefyd gydag Arweinwyr y Gwasanaethau. Mae angen datblygu canllawiau manylach ynglŷn â phryd i ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd a chyfieithu.</p> |

| | |
|---|--|
| | <p>Mae gan lawer o dimau systemau anffurfiol ar waith i ddefnyddio aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg i gefnogi siaradwyr Cymraeg yn ystod ymgynghoriadau clinigol. Mae angen casglu enghreifftiau gan reolwyr gwasanaethau a rhoi gweithdrefnau ffurfiol ar waith.</p> <p>Mawrth 2022</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae gan staff fynediad parhaus at ganllaw ar sut i gyrchu cyfieithu a chyfieithu ar y pryd ac yn parhau i ofyn i staff tîm y Gymraeg am gymorth a chyingor yn ôl yr angen. • Mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith ac adnoddau wedi cael eu diweddarau i gynnwys gwybodaeth glir ar y Cynnig Rhagweithiol a'r angen clinigol am y Gymraeg. <p>Ionawr 2023</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae gennym adran Y Gymraeg ar Sharepoint sydd ar gael i holl staff, sy'n nodi manylion ar sut i gyrchu gwasanaeth cyfieithu ar gyfer ymgynghoriadau clinigol. • Mae gennym gontractau gyda GCC (Gwasanaeth Cyfieithu Cymru i'r Sector Cyhoeddus), ac ers Rhagfyr 2022, mae gan staff fynediad at LanguageLine ar ffôn clyfar neu dabled. Gall y ddau yma sicrhau bod cyfieithiad Cymraeg ar gael ar gyfer ymgynghoriadau clinigol. • Mae gwybodaeth ar gael ar ddefnyddio Cyfieithu ar y pryd ar Teams ar ein tudalennau SharePoint ac mae'n nodi ei bod ar gael ar gyfer ymgynghoriadau clinigol. Roedd sesiwn frifffio staff ddiweddar yn cynnwys arddangosiad ar ddefnyddio system gyfieithu Teams. |
| <p>Adolygiad Mawrth 2024 Yn dilyn cyflwyno'r ap LanguageLine Insight mae gan staff ar draws y bwrdd iechyd fynediad at gyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg ar alw, ar fyr rybudd. Nid oes cofnod bod y system yn cael ei defnyddio ar gyfer y Gymraeg fodd bynnag, nac mewn gwirionedd unrhyw gofnod bod cyfieithu ar y pryd Cymraeg wedi cael ei ddefnyddio neu y gofynnwyd amdano ar gyfer ymgynghoriad clinigol. Nid yw'n glir bod cleifion sy'n siarad Cymraeg yn dymuno derbyn gwasanaethau trwy gyfieithu ar y pryd (hynny yw, y byddai'n well ganddynt wneud hynny na'u derbyn yn Saesneg).</p> | |
| <p>Datblygu canllawiau ar gyfer rheolwyr i sicrhau bod gofynion y Gymraeg ar gyfer swyddi gwag yn cael eu hasesu a'u hystyried yn briodol yn ystod y broses recriwtio.</p> | <p>Ionawr 2021 - Diwygiwyd canllawiau recriwtio i adlewyrchu'r wybodaeth hon. Trefnwyd gwaith pellach gan gynnwys asesiadau enghreifftiol fel rhan o raglen hyfforddi recriwtio rheolwyr.</p> <p>Mawrth 2022</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddir pecyn cymorth asesu sgiliau Cymraeg fel rhan o'r broses recriwtio i reolwyr ystyried pa sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer swyddi. • Ailadroddwyd pwysigrwydd asesu'r sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer swyddi mewn cyfarfod arweinwyr gwasanaethau a gofynnwyd i adrannau archwilio nifer y siaradwyr Cymraeg sydd eisoes yn eu tîm wrth recriwtio. |

| | |
|--|--|
| | <ul style="list-style-type: none"> • Cafodd y pecyn cymorth sgiliau iaith wedi ei drafod mewn cyfarfod o arweinwyr gwasanaethau a byddwn yn ailedrych arno er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben dros y flwyddyn nesaf. <p>Ionawr 2023</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diweddarwyd canllawiau i reolwyr ym mis Awst 2022, yn unol â'r lansiad tudalennau Sharepoint newydd Y Gymraeg. • Mae cyngor ar gael i Reolwyr bob mis yn y sesiynau ymsefydlu bob mis. • Mae'r polisi recriwtio wedi'i ddiweddarau i wella'r elfen hon. <p>Ein bwriad dros y flwyddyn nesaf yw datblygu hyfforddiant arbenigol i reolwyr ar eu cyfrifoldeb wrth fodloni safonau'r Gymraeg, a fydd yn cwmpasu anghenion y Gymraeg wrth recriwtio er mwyn cynyddu nifer y staff sy'n gallu cynnig ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg.</p> |
| <p>Monitro gofynion y Gymraeg wrth hysbysebu swyddi newydd a gwag.</p> | <p>Ionawr 2021 - Mae hyn wedi ei weithredu drwy is-grŵp recriwtio Cymraeg y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. Mae gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod Swydd Ddisgrifiadau dwyieithog a hysbysebion swyddi yn cael eu cyhoeddi. Mae cost o weithredu hwn yn cael ei fonitro ar hyn o bryd.</p> <p>Mawrth 2022</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae holl hysbysebion swydd a swydd ddisgrifiadau yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg fel rhan o broses recriwtio a chafodd ei rhoi ar waith yn 2021. Mae Swydd Ddisgrifiadau'n cael eu cyfieithu gan gyfieithydd allanol a phob dogfen recriwtio yn cael eu cyfieithu gan ein Cyfieithydd mewnol llawn amser. • Defnyddir hefyd becyn cymorth asesu sgiliau Cymraeg fel rhan o'r broses recriwtio ar gyfer pob rôl a hysbysebir (fel y manylir uchod). • Cafodd y pecyn cymorth ei drafod mewn cyfarfod o arweinwyr gwasanaethau a byddwn yn ailedrych arno er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben dros y flwyddyn nesaf. <p>Ionawr 2023</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ym mis Medi 2022, cafodd ein polisi recriwtio corfforaethol ei ddiweddarau i gynnwys gwybodaeth am yr angen i reolwyr ystyried y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen wrth recriwtio ac i gysylltu â thîm y Gymraeg i gael arweiniad pellach. • Ym mis Rhagfyr 2022, datblygwyd pecyn cymorth newydd i reolwyr er mwyn asesu'r sgiliau Cymraeg sydd eu hangen wrth recriwtio. • Bydd yr hyfforddiant a grybwyllir yn y camau uchod, yn cynnwys canllawiau i reolwyr ar sut i asesu'r sgiliau iaith sydd eu hangen wrth recriwtio. |
| | |

Adolygiad Mawrth 2024

| Blwyddyn | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|--|---------|---------|---------|---------|---------|---------|
| Nifer y rolau a hysbysebwr yn 'Gymraeg Hanfodol' | 2 | 0 | 2 | 3 | 2 | ? |

Yn ymarferol, hysbysebwyd pob rôl ar wahân i'r uchod gyda sgiliau Cymraeg yn 'ddymunol'; mae hwn wedi bod yn bolisi ers sawl blwyddyn. Er bod gwneud pob rôl yn 'Gymraeg Dymunol' yn gydnabyddiaeth o werth y sgiliau hyn o fewn y bwrdd iechyd, mewn gwirionedd nid oes llawer o dystiolaeth bod y polisi hwn wedi gwneud gwahaniaeth ymarferol i sgiliau staff (ystyriwch yr ystadegau uchod ar lefelau sgiliau BIAP).

Mae'n amlwg o'r diffyg cynnydd yn nifer y rolau 'Cymraeg Hanfodol' sy'n cael eu hysbysebu gan y bwrdd iechyd nad yw'r camau a gymerwyd ers mis Ionawr 2021 wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol gan fod nifer y rolau 'Cymraeg Hanfodol' a hysbysebwr yn parhau i fod yn isel iawn fel canran o'r cyfanswm. Amlygwyd y mater hwn yn Adroddiad Blynyddol 2021-22 a oedd yn cydnabod yr angen i weithredu o'r newydd i newid arferion mewnol a chynyddu nifer y rolau a hysbysebwr. Ailgyhoeddwyd Polisi Recriwtio'r bwrdd iechyd yn ystod Rhagfyr 2022 gyda'r adrannau ar y Gymraeg wedi cael eu cryfhau; yn anffodus, nid yw hyn wedi arwain at gynnydd sydd wedi arwain at gynllunio i gyflwyno gofynion cymeradwyo swyddi gwag mwy llym ynghylch sgiliau Cymraeg yn strategaeth 2024-29.

Gweithio gyda disgyblion ysgol a myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg sydd â diddordeb mewn ymuno â GIG Cymru er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle

Ionawr 2021 - Mae cynlluniau ar waith i gynnal sesiwn Ymwybyddiaeth Iaith i ddisgyblion ysgolion uwchradd mewn digwyddiad rhithwir Gyrfa Cymru. Mae BIP CTM yn arwain ar y fenter hon.

Mawrth 2022

- Diweddariad o Ionawr 2021 - cyflwynwyd sesiwn yn Gymraeg ar gyfer y digwyddiad Gyrfaedd Rhithwir 2021 yn edrych ar gyfleoedd prentisiaeth yn y bwrdd iechyd. Ffilmiwyd y sesiwn a gellir ei dangos eto mewn digwyddiadau gyrfaedd eraill.
- Cynhaliwyd sesiwn gyrfa ar-lein gyda disgyblion Cymraeg yn un o ysgolion uwchradd Powys i'w hannog i ystyried gyrfa yn y GIG ac i bwysleisio pa mor bwysig yw eu sgiliau Cymraeg i'r sector. Rydym yn gobeithio cynnig hon bellach i ysgolion eraill Powys.

Ionawr 2023

- Mae cysylltiadau wedi'u gwneud gyda Swyddogion Gyrfa Cymru ym Mhowys a'r Academi Iechyd a Lles o fewn y bwrdd iechyd i sicrhau bod modd cynnwys sesiynau ar yr iaith Gymraeg lle bo modd.
- Mae gan Dîm y Gymraeg sesiynau ar yr iaith Gymraeg wedi'u trefnu gyda 3 ysgol uwchradd ym Mhowys rhwng Ionawr - Mawrth 2023 a bydd hefyd yn cymryd rhan mewn digwyddiad ar gyfer ysgolion ledled Powys i hyrwyddo pwysigrwydd y Gymraeg yn y gweithle.

Adolygiad Mawrth 2024

| | |
|--|--|
| <p>I'r raddau bod yr amcan hwn yn ymwneud â hyrwyddo a hwyluso yn unig, mae BIAP wedi parhau i weithio ar hyn yn llwyddiannus ac yn effeithiol. Mae cynllun Menter Gyrfaoedd yr Academi 2023 wedi'i gynllunio i fod yn gwbl ddwyieithog ac mae'n cynnwys pwyslais ar sgiliau Cymraeg yng ngweithlu'r GIG.</p> | |
| <p>Dod o hyd i fentoriaid sy'n siarad Cymraeg ar draws BIAP sy'n gallu cefnogi eraill a hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn y gweithle.</p> | <p>Mawrth 2022</p> <ul style="list-style-type: none"> Yn ein holiadur i aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg yn Hydref 2021, gofynnwyd a oedden nhw'n barod i gefnogi cydweithwyr sy'n dysgu Cymraeg ac i weithredu fel 'cyfeillion' pe baen ni'n lansio cynllun cyfeillion. Nododd cyfanswm o 17 aelod o staff eu bod yn hapus i gymryd rhan mewn menter o'r fath. Mae trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal ynglŷn â chymryd rhan yn y cynllun 'Siarad' genedlaethol a byddwn yn edrych ymhellach ar hyn. <p>Ionawr 2023 – dim diweddariad pellach ar hyn.</p> |
| <p>Adolygiad Mai 2024</p> <p>Nid oedd modd cyflwyno cynllun Siarad oherwydd trafferthion yn ymwneud â chaniatáu i staff gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith i gymryd rhan mewn sesiynau mentora.</p> <p>Mae'n anodd iawn cyflawni'r amcan hwn oherwydd yr uchod, yn ogystal â ffactorau eraill megis natur gwasgaredig BIAP yn ddaearyddol fel cyflogwr, diffyg dyletswyddau clir / proffil rôl i fentor a diffyg adnoddau o fewn tîm Cymraeg i sefydlu system o'r fath. Fodd bynnag, mae mwy o lwyddiant wedi'i gyflawni o ran hyrwyddo dysgwyr a dysgu ar-lein e.e. drwy'r grŵp Dysgwyr Cymraeg ar Yammer, un o'r grwpiau staff mwyaf gweithredol. Bydd cynllun 2024 yn canolbwyntio ar y technegau llai ffurfiol hyn.</p> | |

Cofnodi Dewis Iaith Cleifion

| | |
|---|--|
| Amcan | Gwella mecanweithiau ar gyfer cofnodi dewis iaith cleifion er mwyn darparu gwasanaeth dwyieithog i'r rhai sydd ei angen. |
| Gweithredoedd | Cynnydd |
| Arweinwyr Gwasanaethau Cymraeg i fonitro gweithdrefnau presennol ar gyfer cofnodi dewis iaith cleifion a gweithio gyda staff allweddol yn eu meysydd i gofnodi unrhyw welliannau. | <p>Ionawr 2021 - Darparwyd adborth i Arweinwyr Gwasanaethau unigol i weithredu a monitro ffyrdd lleol o gofnodi dewis iaith cleifion. Enghraifft - Ffurflen atgyfeirio ffisiotherapi wedi'i diwygio i adlewyrchu hyn.</p> <p>Ionawr 2023</p> |

| | |
|--|---|
| | <ul style="list-style-type: none"> • Diweddarwyd ffurflen atgyfeirio MSK Ffisiotherapi yn ddiweddar er mwyn ei gwneud hi'n gliriach i gleifion ac i'r staff bod ymgynghoriad yn y Gymraeg (ac mewn ieithoedd eraill) yn cael ei chynnig a'i ddarparu, fel y gallwn sicrhau bod anghenion iaith yn cael eu diwallu. • Diweddarwyd llythyrau apwyntiad Asesu Cof i sicrhau bod cleifion ac aelodau'r teulu yn gwybod sut i ddweud wrthym am eu dewis iaith. • Byddwn ni'n parhau i weithio ag adrannau ar ddiweddarar gohebiaeth cleifion er mwyn sicrhau bod dewis iaith ar gyfer ymgynghoriadau clinigol yn glir. • Ym mis Ionawr 2023, cafodd CIVICA ei lansio ar draws y bwrdd iechyd a fydd yn casglu data ac adborth i ni ynghylch pryd y gofynnwyd am wasanaeth Cymraeg a phryd y darparwyd. |
| <p>Monitro systemau gweinyddu cleifion o fewn Gwasanaethau Cleifion i sicrhau bod dewis iaith cleifion yn cael ei gofnodi a bod sylw timau clinigol yn cael ei dynnu at hyn wrth drefnu apwyntiadau.</p> | <p>Ionawr 2021 - Gall WPAS gofnodi dewis iaith ac anghenion cyfathrebu. Mae angen archwilio opsiynau ychwanegol i rannu'r gwybodaeth ag adrannau clinigol.</p> <p>Ionawr 2023</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gellir cofnodi dewis iaith cleifion ar WPAS a WCCIS. • Mae mwy o waith i'w wneud i sicrhau bod llythyrau a ffurflenni cyfeirio cleifion ar draws yr holl wasanaethau yn cynnwys cwestiwn ar ddewis iaith fel bod data ar gael i'w gofnodi. |
| <p>Gweithio gydag Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd eraill i rannu enghreifftiau o arfer gorau wrth gofnodi dewis iaith a defnyddio'r wybodaeth hon i ddarparu ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg.</p> | <p>Ionawr 2023</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gan fod ein systemau sy'n cofnodi'r math hwn o wybodaeth yn cael ei gaffael a'i rheoli'n ganolog ar ran y byrddau iechyd, nid oes gennym y gallu i wneud y datblygiadau sydd eu hangen i gofnodi'r data am nifer yr ymgynghoriadau clinigol sy'n cael eu cynnal yn y Gymraeg ar hyn o bryd. • Rydym yn gobeithio y bydd system yn cael ei rhoi ar waith yn genedlaethol i gefnogi'r gwaith hwn. • Wrth i ni weithio'n agos gyda'r sefydliadau iechyd eraill i hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws GIG Cymru, rydym yn yr un modd yn cydweithio'n agos ac yn cydweithio ar gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. • Ym mis Ionawr 2023, cafodd CIVICA ei lansio ar draws y bwrdd iechyd a fydd yn casglu data ac adborth i ni ynghylch pryd y gofynnwyd am wasanaeth Cymraeg a phryd y darparwyd. |
| <p>Adolygu amserlenni staff i gofnodi pryd mae staff sy'n siarad Cymraeg ar gael ac yn gallu cynnal neu gefnogi ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg.</p> | <p>Ionawr 2021 – adolygwyd polisi ar e-amserlennu ym mis Medi 2019 i gynnwys cyngor a gwybodaeth am staff ar amserlennu sifftiau sydd â sgiliau Cymraeg er mwyn bod digon o gapasiti Cymraeg ar batrymau shifft, lle bo'n bosibl.</p> <p>Ionawr 2023</p> <ul style="list-style-type: none"> • Caiff staff eu hannog a'u cynghori i 'baru' cleifion â staff sy'n siarad Cymraeg, lle mae hynny'n bosibl. |

| | |
|---|--|
| | <ul style="list-style-type: none"> Anogir staff nad ydynt yn siarad Cymraeg mewn sesiynau ymsefydlu corfforaethol ac mewn sesiynau ymwybyddiaeth iaith gyffredinol i ofyn pwy yn eu tîm sy'n siarad Cymraeg er mwyn iddynt allu cyfeirio cleifion atynt am ohebiaeth ac i 'baru' cleifion a staff ar gyfer ymgynghoriadau. Rydym wedi gofyn am sticeri 'Cymraeg' i staff ein ward eu defnyddio ar welyau neu gofnodion cleifion, ond rydym yn aros i gael stoc gan Lywodraeth Cymru. |
| <p><u>Adolygiad Mawrth 2024</u></p> <p>Mae'r camau uchod sydd wedi'u cwblhau wedi gwella gweithdrefnau'r bwrdd iechyd yn sylweddol ar gyfer gofyn a chofnodi dewis iaith cleifion. Dylai hyn ei gwneud yn haws i glinigwyr nodi siaradwyr Cymraeg a gwella eu gallu i ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol.</p> <p>Mae cyflwyno CIVICA wedi golygu bod cleifion yn cael eu holi'n systematig am y tro cyntaf a thros gyfnod o amser a oeddent yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn ystod eu triniaeth gyda BIAP. Mae hyn wedi darparu gwaelodlin a dull o fesur gallu'r bwrdd iechyd i ddarparu ymgynghoriadau yn Gymraeg; felly mae arolygon CIVICA yn rhan greiddiol o gynllun 2024-2029.</p> | |

Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol

| | |
|---|---|
| Amcan | Gwella ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn y gwaith. |
| Gweithredoedd | Cynnydd |
| Codi ymwybyddiaeth o egwyddor y 'Cynnig Rhagweithiol' er mwyn annog ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg. | <p>Ionawr 2021 – ymdrinnir â hon yn y sesiwn Ymwybyddiaeth Iaith a gyflwynir i staff, ac yn nogfennau Adnoddau a Chanllawiau'r Rheolwyr.</p> <p>Mawrth 2022</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae sleidiau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith wedi eu diweddarau yn 2022 i'w cyflwyno i dimau staff. Roedd y llythyron a'r cortynnau Cymraeg Gwaith yn cael eu cynnig a'u danfon i'r staff mewn amryw o adrannau o fewn y bwrdd iechyd a Gofal Sylfaenol i sicrhau bod cleifion yn gwybod lle mae gwasanaeth Cymraeg ar gael. Mae cefndiroedd Teams BIAP yn cynnwys logo 'Cymraeg' a 'Dysgu Cymraeg' i staff i'w defnyddio mewn cyfarfodydd. <p>Ionawr 2023</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae Mwy Na Geiriau a phwysigrwydd rhoi'r Cynnig Rhagweithiol ar waith yn cael eu cynnwys yn ein sesiwn Gymraeg fel rhan o'r ymsefydlu corfforaethol ac yn sesiynau ymwybyddiaeth iaith i adrannau. |

| | |
|---|--|
| | <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r staff yn cael eu hannog i wisgo logo Cymraeg Gwaith a manylion ble i gael y rhain, gan gynnwys y gwisgoedd gyda logo wedi'i frodio ar wisg staff clinigol, yn cael ei rannu mewn sesiynau staff ac ar Sharepoint. • Mae nwyddau Cymraeg Gwaith wedi cael eu dyrchafu i ddarparwyr gofal sylfaenol hefyd ac mae llawer o feddygon teulu a Deintydd wedi gofyn am y rhain ar gyfer eu staff clinigol Cymraeg. • Rydym yn gweithio'n agos gyda'r tîm gofal sylfaenol ar hyn o bryd i gwrdd â Safon 65 fel bod darparwyr gofal sylfaenol megis rhai meddygon teulu, a all gynnal ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg â chleifion, yn cael eu hyrwyddo ar ein gwefan. |
| <p>Hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn y gwaith a chynyddu ymwybyddiaeth ddiwylliannol o'r iaith ymhlith staff a defnyddwyr gwasanaeth.</p> | <p>Ionawr 2021 – Parhau i hybu digwyddiadau Cymraeg e.e. Eisteddfod, Diwrnod Hawliau'r Gymraeg, Dydd Gŵyl Dewi, ymadroddion Cymraeg ar gyfer y gweithle, ac ati.</p> <p>Mawrth 2022</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae digwyddiadau a dyddiau Cymraeg fel Diwrnod Hawliau'r Gymraeg, Dydd Miwsig Cymru, Dydd Gŵyl Dewi yn cael eu hyrwyddo drwy newyddlen cyhoeddiadau staff BIAP ac ar y rhwydweithiau Teams ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg. • Ar Fawrth 1^{af} wnaeth Menter Iaith Maldwyn gynnal Cwis Gwyl Dewi ar gyfer y Bwrdd Iechyd a staff CSP sydd naill ai'n dysgu Cymraeg neu eisiau gwella eu sgiliau, ac rydym yn gobeithio cynnal mwy o weithgareddau fel hyn dros y flwyddyn nesaf. • Mae sleidiau ychwanegol wedi'u cynnwys o fewn y sesiwn ymsefydlu corfforaethol i gynyddu ymwybyddiaeth y Gymraeg ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol ar gyfer staff newydd. • Mae Geiriau Cymraeg y mis wedi eu cynnwys yn y newyddlen staff BIAP. • Atgoffwyd staff am yr angen i ateb y ffôn yn ddwyieithog a chardiau ffonetig a gynigir er mwyn cefnogi hyn. <p>Ionawr 2023</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae diwylliant Cymreig yn cael ei hyrwyddo ar draws y sefydliad a dyddiau cenedlaethol megis Diwrnod Shw'mae, Su'mae yn cael eu hyrwyddo a'u dathlu. • Mae'r Gymraeg wedi'i chynnwys yn y sesiynau ymsefydlu corfforaethol misol ar gyfer yr holl staff newydd. • Rhoddir hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff ar draws y sefydliad. • Cyhoeddir cylchlythyr Cymraeg bob chwarter. • Mae gennym 2 dudalen Yammer, 1 i siaradwyr Cymraeg ac 1 ar gyfer dysgwyr Cymraeg lle mae gwybodaeth gyffredinol am Gymraeg, gweithgareddau lleol ac awgrymiadau defnyddiol yn cael eu rhannu. • Mae digwyddiadau'n cael eu cynnal mewn partneriaeth â sefydliadau iechyd eraill i hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn naturiol a'r diwylliant Cymreig e.e. cynhaliwyd cwis i ddathlu Diwrnod Shw'mae, Su'mae a sesiwn wybodaeth am y 'Fari Lwyd', sy'n draddodiad unigryw Gymreig cyn y Nadolig. |

| | |
|---|---|
| | <ul style="list-style-type: none"> Ar Fawrth 1^{af} bydd Eisteddfod cyntaf y GIG yn cael ei chynnal ar-lein i staff. |
| Annog pobl i gymryd lle mewn mentrau Cymraeg i hyrwyddo agwedd gynhwysol tuag at ddarparu gwasanaethau dwyieithog. | <p>Mawrth 2022</p> <ul style="list-style-type: none"> Ar Fawrth 1^{af} wnaeth Menter Iaith Maldwyn gynnal Cwis Gwyl Dewi ar gyfer y Bwrdd Iechyd a staff CSP sydd naill ai'n dysgu Cymraeg neu eisiau gwella eu sgiliau. Roedd y digwyddiad ar agor i'r holl aelodau o staff a chafodd ei hysbysebu yn newyddlen BIAP. Mae cyfleoedd lleol i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ar draws Powys (fel gweithgareddau gan y Mentrau Iaith) yn cael eu rhannu yn y newyddlen hefyd. Rydym yn annog ein staff i fynd i ddigwyddiadau Cymraeg, megis y Gymraeg a dementia, Cymraeg a'r Diwylliant Byddar, sy'n cael eu cynnal gan fyrddau iechyd a sefydliadau eraill. <p>Ionawr 2023</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae pob digwyddiad i hybu defnydd y Gymraeg, a gynhelir naill ai gan sefydliadau GIG Cymru neu gan sefydliadau cymunedol, megis y Mentrau Iaith a'r Urdd, yn cael eu hyrwyddo ar ein tudalen newyddion Sharepoint, ar Yammer ac ar ein tudalen Facebook staff. |
| <u>Adolygiad Mawrth 2024</u> | |
| <p>I'r raddau bod y nodau hyn i gyd yn ymwneud â hyrwyddo ac annog, gellir eu hystyried yn llwyddiant. Cafodd modiwl gorfodol Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg GIG Cymru ar ESR Ar-lein ei gyflwyno yn 2022 ac mae wedi ei gwneud hi'n orfodol i'r holl staff gwblhau'r cwrs hwn; mae'r cwrs yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o'r Cynnig Rhagweithiol a datblygu dealltwriaeth ddiwylliannol y cyfranogwyr. Mae adrodd ar gyfraddau cwblhau'r cwrs hwn yn rhan o gynllun 2024-29.</p> | |

Gweithdrefnau Monitro

| | |
|--|---|
| Amcan | Monitro'r ddarpariaeth o ymgynghoriadau dwyieithog |
| Gweithredoedd | Cynnydd |
| Datblygu mecanwaith ar gyfer cofnodi nifer yr ymgynghoriadau clinigol sy'n digwydd yn y Gymraeg (gan gynnwys y rhai a gefnogir gan staff sy'n siarad Cymraeg). | <p>Mawrth 2022</p> <ul style="list-style-type: none"> Gan fod ein systemau sy'n cofnodi'r math hwn o wybodaeth yn cael ei gaffael a'i rheoli'n ganolog ar ran y byrddau iechyd, nid oes gennym y gallu i wneud y datblygiadau sydd eu hangen i gofnodi'r data am nifer yr ymgynghoriadau clinigol sy'n cael eu cynnal yn y Gymraeg ar hyn o bryd. |

| | |
|---|---|
| | <ul style="list-style-type: none"> Rydym yn gobeithio y bydd system yn cael ei rhoi ar waith yn genedlaethol i gefnogi'r gwaith hwn. <p>Ionawr 2023</p> <ul style="list-style-type: none"> Ym mis Ionawr 2023, lansiodd y bwrdd iechyd ei blatfform adborth ar brofiad cleifion, CIVICA. Mae CIVICA yn caniatáu inni uwchlwytho holiaduron i'r system y gellir naill ai gael eu hanfon yn uniongyrchol i gleifion yn dilyn ymgynghoriad neu y gellir eu llenwi yn ystod apwyntiad neu tra ar ward. Mae un o'r cwestiynau safonol yn yr holiaduron yn gofyn a ddarparwyd gwasanaeth Cymraeg pe bai ei eisiau / ei angen. <div data-bbox="869 512 1980 740" style="background-color: #f0f0f0; padding: 10px; border: 1px solid #ccc;"> <p>2 Oeddech chi yn medru siarad Cymraeg â'r staff os oeddech yn dymuno hynny?</p> <p> <input type="radio"/> Bob amser <input type="radio"/> Fel arfer <input type="radio"/> Weithiau <input type="radio"/> Byth </p> <p> <input type="radio"/> Ddim yn berthnasol </p> </div> <ul style="list-style-type: none"> Dros amser, bydd CIVICA yn rhoi'r data sydd ei angen arnom ar sawl ymgynghoriad clinigol sy'n digwydd yn Gymraeg. |
| <p>Dadansoddi'r data sydd ar gael am ymgynghoriadau clinigol sy'n digwydd yn Gymraeg a chynnwys y manylion hyn yn yr adroddiadau Monitro Blynyddol.</p> | <p>Mawrth 2022</p> <ul style="list-style-type: none"> Gan fod ein systemau sy'n cofnodi'r math hwn o wybodaeth yn cael ei gaffael a'i rheoli'n ganolog ar ran y byrddau iechyd, nid oes gennym y gallu i wneud y datblygiadau sydd eu hangen i gofnodi'r data am nifer yr ymgynghoriadau clinigol sy'n cael eu cynnal yn y Gymraeg ar hyn o bryd. Rydym yn gobeithio y bydd system yn cael ei rhoi ar waith yn genedlaethol i gefnogi'r gwaith hwn. <p>Ionawr 2023</p> <ul style="list-style-type: none"> Ym mis Ionawr 2023, lansiodd y bwrdd iechyd ei blatfform adborth ar brofiad cleifion, CIVICA. Mae CIVICA yn caniatáu inni uwchlwytho holiaduron i'r system y gellir naill ai gael eu hanfon yn |

| | |
|--|--|
| | <p>uniongyrchol i gleifion yn dilyn ymgynghoriad neu y gellir eu llenwi yn ystod apwyntiad neu tra ar ward.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae un o'r cwestiynau safonol yn yr holiaduron yn gofyn a ddarparwyd gwasanaeth Cymraeg pe bai ei eisiau / ei angen. <div data-bbox="869 312 1964 539" style="background-color: #f0f0f0; padding: 10px; border: 1px solid #ccc;"> <p>2 Oeddech chi yn medru siarad Cymraeg â'r staff os oeddech yn dymuno hynny?</p> <p> <input type="radio"/> Bob amser <input type="radio"/> Fel arfer <input type="radio"/> Weithiau <input type="radio"/> Byth </p> <p> <input type="radio"/> Ddim yn berthnasol </p> </div> <ul style="list-style-type: none"> Dros amser, bydd CIVICA yn rhoi'r data sydd ei angen arnom ar sawl ymgynghoriad clinigol sy'n digwydd yn Gymraeg. |
| <p>Arweinwyr Gwasanaethau Cymraeg i fonitro cydymffurfiaeth â Safon 110</p> | <p>Mawrth 2022</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae arweinwyr Gwasanaethau yn ymwybodol o'r angen i gydymffurfio â Safon 110 ac yn cymryd camau, lle bo'n bosibl, er mwyn cynyddu nifer yr ymgynghoriadau clinigol sy'n cael eu cynnal yn Gymraeg. <p>Ionawr 2023</p> <ul style="list-style-type: none"> Fel yr uchod. Bydd tîm y Gymraeg yn gweithio gydag Arweinwyr Gwasanaethau dros y flwyddyn nesaf i gyhoeddi cynllun newydd 5 mlynedd ar gyfer Powys rhwng 2024-2029, a fydd yn cynnwys mecanwaith ar gyfer monitro cynnydd. |
| <p>Casglu a dadansoddi adborth defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg ynghylch eu profiad fel cleifion.</p> | <p>Mawrth 2022</p> <ul style="list-style-type: none"> Ers diwedd 2021, mae tîm y Gymraeg a Chydraddoldeb bellach yn arwain ar brofiad cleifion a gwaith straeon cleifion ar draws y bwrdd iechyd ac yn mynd ati i chwilio am gleifion Cymraeg eu hiaith i rannu eu profiadau. Mae'r tîm yn cydweithio gydag adrannau ar draws y bwrdd iechyd i adnabod straeon cleifion posib ac yn datblygu cronfa o ddogfennau fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer y gwaith yma. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau allanol fel PAVO a'r CIC i sicrhau bod llais y cleifion Cymraeg yn cael eu clywed. |

| | |
|---|--|
| | <p>Ionawr 2023</p> <ul style="list-style-type: none"> Rydym wedi mynd ati i hyrwyddo ein gwaith ar straeon cleifion o fewn tîm y Gymraeg i gymunedau Cymru ledled Powys drwy gyhoeddi gwybodaeth am y gwaith yn y Papurau Bro lleol ac yng nghylchlythyr Iechyd a Lles PAVO. Rydym hefyd wedi rhannu gwybodaeth gyda mudiadau lleol fel y Mentrau Iaith. Aeth ein stori cleifion dwyieithog cyntaf i gyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr ar ffurf cerdd a ysgrifennwyd gan glaf. |
| <p>Gweithio gydag Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd eraill i rannu arfer gorau ynghylch ymgynghoriadau clinigol ac ymdrechu i sicrhau cysondeb o ran cydymffurfio â safon 110.</p> | <p>Ionawr 2023</p> <ul style="list-style-type: none"> Gan fod ein systemau sy'n cofnodi'r math hwn o wybodaeth yn cael ei gaffael a'i rheoli'n ganolog ar ran y byrddau iechyd, nid oes gennym y gallu i wneud y datblygiadau sydd eu hangen i gofnodi'r data am nifer yr ymgynghoriadau clinigol sy'n cael eu cynnal yn y Gymraeg ar hyn o bryd. Rydym yn gobeithio y bydd system yn cael ei rhoi ar waith yn genedlaethol i gefnogi'r gwaith hwn. Wrth i ni weithio'n agos gyda'r sefydliadau iechyd eraill i hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws GIG Cymru, rydym yn yr un modd yn cydweithio'n agos ac yn cydweithio ar gydymffurfio â'r safonau Cymraeg. |
| <p><u>Adolygiad Mawrth 2024</u></p> <p>Mae'r system CIVICA yn golygu bod BIAP bellach yn gallu cofnodi a oedd cleifion a oedd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn ystod eu rhyngweithio â BIAP yn gallu gwneud hynny.</p> | |